
# Y Ffynnon

Papur Bro Eifionydd


Rhif 496 • **Mawrth 2021** • £1



Cysur rhwng cloriau 21


Cofio Dai Davies 36


Peredur a'r pŵer 05





Holi Lillian 07





## Cadair a Choron

ER NAD yw'r clybiau wedi cyfarfod wyneb yn wyneb ers blwyddyn mae Ffermwyr Ifanc Eryri wedi trefnu gweithgareddau rhithiol gan gynnwys Eisteddfod ar 27 Chwefror. Llongyfarchiadau i Glwb Llangybi ar ddod i'r brig unwaith yn rhagor.

Roedd aelodau'r sir wedi cael cyfle i anfon fideos ohonynt eu hunain ar gyfer y gwahanol gystadlaethau 'llwyfan' ac roedd cystadlaethau cartref hefyd gan gynnwys y ddwy brif gystadleuaeth lenyddol sef y gadair a'r goron, a braf yw cael dweud bod y ddwy brif wobr wedi dod i glybiau ardal Y Ffynnon. Y beirniad llên oedd Erin Prysor Evans, Pentrefoelas.

Rhithiol oedd y gadair a'r goron eleni ond er nad oedd gwobrau i'w cyflwyno eglurodd Rhodri Siôn o Glwb Llanrwst, Cadeirydd Pwyllgor Eisteddfod CFfI Eryri oedd yn arwain y seremoni rithiol, nad oedd hynny'n tynnu oddi ar fri a chyflawniad camp y buddugwyr.

Y bardd buddugol am yr ail flwyddyn yn olynol oedd Meinir Owen, Bryn Mawr, Llanaelhaearn sy'n aelod o Glwb Llangybi. Derbyniodd Meinir ei haddysg yn Ysgol Gynradd Llangybi, Ysgol Glan y Môr a Choleg Meirion-Dwyfor. Aeth yn ei blaen i Brifysgol Bangor i astudio Addysg Gynradd a bellach mae hi'n dysgu yn Ysgol Brynaerau, Pontllyfni. Mae Meinir yn aelod o Glwb Llangybi ers dros ddeng mlynedd a bu mewn nifer o swyddi yn y clwb dros y blynyddoedd. Meinir yw Is-gadeirydd CFfI Eryri.



*Meinir Owen*

Am gerdd ar y thema 'Cymuned' y gofynnwyd yng nghystadleuaeth y gadair. Roedd cerdd Meinir yn ymateb i'r syniad o godi pentref gwyliau newydd ym mhentref Pistyll. Derbyniodd ganmoliaeth y beirniad am aeddfedrwydd a chynildeb y dweud ac am ei dawn i ddefnyddio'r wers rydd yn hyderus. Roedd Meinir hefyd yn ail yng nghystadleuaeth y goron.

Y llenor buddugol oedd Angharad Ellis, Penclawdd, Craig Madog, Tremadog sy'n aelod o Glwb Dyffryn Madog. Derbyniodd Angharad ei haddysg yn Ysgol y Gorlan Tremadog, Ysgol Eifionydd a Choleg Meirion-Dwyfor. Aeth hithau i Brifysgol Bangor a graddio yn y Gymraeg. Bu'n gweithio am flwyddyn yng Nghanolfan Iaith Tŷ Newydd, Llanystumdwy ond mae bellach wedi dychwelyd i Brifysgol Bangor i ddilyn cwrs ymarfer dysgu. Yn dilyn ei chyfnod yn y coleg ailymunodd Angharad â Chlwb Dyffryn Madog yn 2019, a'r flwyddyn honno daeth yn drydydd am gadair a choron Eisteddfod Ffermwyr Ifanc Eryri.



*Angharad Ellis*

Am ddarn o ryddiaith ar y thema 'Mwgwd/Mygydau' y gofynnwyd yng nghystadleuaeth y goron. Swynwyd y beirniad gan ymson Angharad a dywedodd fod ganddi ddawn arbennig i gyfuno'r dwys a'r digri wrth iddi greu darlun o gymeriad sy'n dioddef o broblemau iechyd meddwl ac sy'n cael ei phoenydio'n barhaus gan ddrychiolaethau.

Llongyfarchiadau i chi eich dwy a phob dymuniad da ar gyfer y dyfodol.

# Y FFYNNON

## Papur Bro Eifionydd

**Cadeirydd:** Dewi Williams,
Tyddyn Deucwm Uchaf, Penmorfa,
Porthmadog, LL49 9SD

**Ysgrifennydd:** Catrin Evans,
Gwenfro, Y Ffôr
Ffôn: 01766 810552
gevans36@btinternet.com

**Trefnydd Hysbysebion:** Catrin Evans,
Gwenfro, Y Ffôr
Ffôn: 01766 810552
gevans36@btinternet.com

**Y Bwrdd Golygyddol:**
**Margaret Hughes**
Bryn Dyfnog, Cricieth
Ffôn: 01766 523161
dyfnog@gmail.com
**Dewi R Jones**
Llys Gwyn, Muriau, Cricieth
ebost: dewirjones57@outlook.com
Ffôn: 07710976388
**Wendy Rees**
Parciau Mawr, Cricieth
Ffôn: 07979 700445
wendyrees20@icloud.com

**Trysorydd:** Gwerfyl Davies,
Llecyn, Pencaenewydd
Ffôn: 01766 810213
gwerfyldavies@gmail.com

**Cysodi a dylunio:** Aled Davies

**Argraffu:** Y Lolfa, Talybont


## Rhifyn nesaf

Cyfraniadau
i law erbyn:



**13 Ebrill**

Straeon, erthyglau newydd a llythyrau
i: **Margaret Hughes**
Bryn Dyfnog, Cricieth
ebost: dyfnog@gmail.com
Ffôn: 01766 523161

Colofnau misol i: **Dewi R Jones**
Llys Gwyn, Muriau, Cricieth
ebost: dewirjones57@outlook.com
Ffôn: 07710 976388

Newyddion y pentrefi, Clybiau
Ffermwyr Ifanc a'r Cynghorau
Cymuned i: **Wendy Rees**
Parciau Mawr, Cricieth
ebost: wendyrees20@icloud.com
Ffôn: 07979 700445

**Allan: 22 Ebrill**

# Y Ffynnon
# Gair Byr

A HITHAU bellach yn ganol mis Mawrth a'r flwyddyn yn prysur symud yn ei blaen, mae'n braf deall bod ystadegau'r Cofid yn darllen yn well erbyn hyn. Rhag temtio ffawd mewn unrhyw fodd fe nodwn bod y newyddion yn gyffredinol dda a'r rhaglen frechu'n codi gobeithion ymhellach ond bod angen parhau i fod yn ofalus.

Heblaw cyhoeddi'r gyllideb ddechrau'r mis mae'n debyg mai un o'r materion gwleidyddol amlycaf ar hyn o bryd ydi dyfodol y Deyrnas Gyfunol fel ag y mae hi. Er gwaethaf ymdrechion y Ceidwadwyr i chwifio'r faner Brydeinig cyn uched ag y medran nhw mae'n debyg y gŵyr pawb bellach nad ydi pethau ddim fel ag y buon nhw. Er bod stori'r Alban ers o leiaf ddau ddegawd yn cadarnhau hynny fe ymddengys bod y dadleuon dros annibyniaeth neu fwy o bwerau i'n Senedd ninnau yng Nghymru yn cryfhau'n arw.

Fe wyddom i gyd fod y pandemig wedi gadael ei ôl yn bur arw ar ein busnesion ac y cymer amser i'r economi ddod ati'i hun i'r graddau y medar hi yn y tymor byr. Fe ddeallwn hynny, a deall hefyd nad oes yna ffon hud i'w chwifio i adfer y sefyllfa. Ond yn gefndir i hyn y mae'r gwagle sydd wedi datblygu rhwng llywodraethau Llundain a Chaerdydd wedi dwysáu.

Y gwir amdani ydi bod y Cofid wedi amlygu gwahaniaethau mewn gwerthoedd a'r angen am gyfeiriad gwleidyddol gwahanol i'r hyn a hyrwyddir yn Lloegr. Os nad dim arall y mae'r degau o filoedd o blant sy'n dal i fyw mewn tlodi yng Nghymru yn ffaith a ddengys bod angen llywodraethu'n gymdeithasol decach. Ddaw hynny ddim yn y 'drefn' yr ydan ni'n rhan ohoni ar hyn o bryd.


Trwy Lŷn ac Eifionydd
**Glanhawr Simdda**
Cysylltwch ag
**Osian Williams**
ar (01758) 720 202
neu (07812) 786 035






*Bryan Williams*
Gemydd – Oriadurwr – Ysgythrwr
80 Stryd Fawr, Pwllheli
**(01758) 612 279**
Cwpanau – Tariannau – Tlysau
a.y.y.b. ar gyfer pob achlysur
Trwsio clociau ac oriaduron
Gemwaith o bob math
Tocynnau Anrheg
Ysgythru ar wydr, tlysau, modrwyau a.y.y.b.
Stoc helaeth o Aur Clogau, Citizen, Nao a Royal Selangor
Hefyd: Gemydd J & L
81 Stryd Fawr, Pwllheli
(01758) 612 558





Tel : 07717 128003
Richard Pearson
Pob agwedd o waith coed, coedwigaeth a rheolaeth cefn gwlad
Coed Tân meddal a chaled ar gael trwy'r flwyddyn • Cynnyrch pren •
• Proffesiynol • Safon BS 3998 •
• Dibynadwy • Cymwysedig •
• Preifat • Masnachol •
• Yswirio'n llawn •
Gwasanaethau Coed
Pearson & Co Ltd.
www.PearsonTrees.co.uk





Mae'r Golygyddion yn gwerthfawrogi pob cyfraniad i'r Ffynnon ond ar yr un pryd cedwir yr hawl i gwtogi, cywiro, golygu neu eu gwrthod yn gyfangwbl. Hefyd nid yw pwyllgor Y Ffynnon o angenrheidrwydd yn cytuno â phob barn a fynegir gan y cyfranwyr.


Ariennir yn rhannol gan
**Lywodraeth Cymru**
Partly funded by
**Welsh Government**

# Senedd Ieuenctid Cymru




*Ifan ar ei draed yn y Senedd yng Nghaerdydd*

AR ÔL bron i ddwy flynedd a hanner mae fy nghyfnod fel Aelod Senedd Ieuenctid Cymru dros Ddwyfor Meirionnydd wedi dod i ben. Hwn oedd tymor cyntaf y Senedd Ieuenctid ar ôl iddi gael ei sefydlu yn 2018 ac roedd yn fraint fawr bod yn rhan o'r sefydliad democrataidd newydd yma. 'Nôl yn 2018 ymgeisiodd 500 o bobl ifanc Cymru yn yr etholiad i gynrychioli eu hetholaeth, yna pleidleisiodd 13,000 o bobl ifanc ledled Cymru i ddewis eu cynrychiolydd lleol a hefyd aelodau o sefydliadau oedd wedi partneru. Pan gyhoeddwyd y canlyniadau roedd 60 o bobl ifanc wedi'u hethol i gynrychioli ieuenctid Cymru.

Pan gynhaliwyd cyfarfod llawn cyntaf y Senedd Ieuenctid yn Chwefror 2019 fe benderfynwyd blaenoriaethu tri maes dros dymor y Senedd:

1. Cymorth Iechyd Emosiynol ac Iechyd Meddwl
2. Sbwriel a Gwastraff Plastig
3. Sgiliau Bywyd yn y Cwricwlwm.

Canolbwyntiais i yn benodol ar ein gwaith ar Gymorth Iechyd Emosiynol ac Iechyd Meddwl, gan holi cyfoedion am eu profiadau ac edrych ar y ddarpariaeth sydd ar gael. Ym mis Hydref 2020 cyhoeddwyd ein hadroddiad terfynol oedd yn dangos cynddrwg ydi problem iechyd meddwl pobl ifanc yng Nghymru. Lluniwyd cyfres o argymhellion i'w cyflwyno i Lywodraeth Cymru yn y gobaith o wella'r sefyllfa yn fuan, yn enwedig o ystyried effaith y pandemig ar les meddyliol ieuenctid ein gwlad.

Ar nodyn personol, mae fy nghyfnod fel Aelod o Senedd Ieuenctid Cymru wedi bod yn wych. Rwyf wedi cael y fraint o gynrychioli fy ardal ar lwyfan cenedlaethol gan drafod materion sy'n bwysig i mi. Un o'r uchafbwyntiau oedd siarad ar lawr Siambr y Senedd ym Mae Caerdydd yn un o ddim ond 60 o bobl ifanc sydd wedi cael y cyfle. Cefais hefyd ddod i nabod a chydweithio efo gwleidyddion etholedig o wahanol bleidiau, ac roedd eu cefnogaeth i ni fel Senedd Ieuenctid yn arbennig.

Mae'n drist bod y cyfnod yma wedi dod i ben a bod y pandemig wedi amharu rhywfaint ar ein profiadau wyneb-yn-wyneb. Ond rwyf yn hynod ddiolchgar am y cyfle a gefais yn ystod y cyfnod ac yn ei hystyried hi'n fraint gallu dweud i mi fod yn rhan o Senedd Ieuenctid gyntaf Cymru. Dymunaf bob lwc i'r criw newydd fydd yn cael eu hethol yn fuan a phob dymuniad da i'r sawl fydd yn fy olynu fel yr aelod dros Ddwyfor Meirionnydd.


***Ifan Price, Cricieth***

# Cân i Gymru




BRAF oedd deall bod cysylltiad rhwng enillydd Cân i Gymru eleni ag ardal Y Ffynnon. Morgan Elwy Williams ddaeth i'r brig gyda'r gân fywiog 'Bach o Hwne', a dyfarnwyd iddo wobr o £5000 a Thlws Cân i Gymru.

Yn wreiddiol o Dan y Fron ger Llansannan mae Morgan, sy'n 25 oed, bellach yn byw yn Llundain lle mae'n athro Ffiseg rhan-amser. Mae Morgan yn ŵyr i Evan ac Ann Williams, Rhandir, Abererch.




'DAU gyhoeddiad cwbwl frawychus ac ysgytwol a dynnodd fy sylw ddechrau'r flwyddyn,' meddai Brian Ifans: 1. Dr Andrew Goodall, Prifweithredwr GIG Cymru yn datgan ar 6 Ionawr 'bod 5,000 o farwolaethau Cofid-19 yn y Deyrnas Unedig gyfan dros y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd'. 2. Vaughan Gething, Gweinidog Iechyd Llywodraeth Cymru yn datgan ar 8 Chwefror 'bod 5,001 wedi marw gyda Cofid-19 yng Nghymru erbyn hyn.'

Cydiad yn eironig a chrefftus yn hanes Porthi'r Pum Mil a wna Brian yn y soned hon. Yn yr hanes fe dosturiodd yr Iesu wrth y dyrfa luosog a gofalu am fwyd i bawb cyn iddo 'adael' iddyn nhw fynd adref i'w cartrefi. Ond gwrando ar ystadegau'r pandemig a wnawn ni heddiw a phum mil na welodd eu cartrefi ar ôl i'r Cofid eu trechu. Mae hwnna'n 'adael' pur wahanol.



Lle roedd haul ar fryn yn llythrennol felly yng Ngalilea yng nghwmni'r Iesu, nid felly yma yng Nghymru ar hyn o bryd – er bod yna bellach, diolch am hynny, arwyddion mwy gobeithiol.

## PUM MIL

Llosgodd haul y dydd dwll yng nghrys y nen
A chiliodd rhai i gysgod pwt o fryn,
Ac wedi cyfri pawb yn ôl y pen
Roedd pum mil selog yno'n gwrando'n syn
Ar ŵr yn traethu am ryw Deyrnas Dduw
Sy'n hafan i bawb, beth bynnag wir fo'u hoed,
Dim ond inni newid rhywfaint ar ein ffordd o fyw,
A challio fymryn a dod at ein coed.
Yna bwytasant oll bum torth o haidd
Cyn i'r haul fachlud draw dros riniog y môr;
Ffarweliodd yntau'n fwyn a theg â'i braidd
Wrth iddyn nhw ei adael yn un côr.
Heddiw, clywais fod pum mil a mwy
Wedi ein gadael ninnau, trwy y clwy.

***Brian Ifans***

Cerdd rydd sydd gan Elwyn Jones ar ein cyfer a'r llinellau i bob pwrpas yn gyfres fer o sylwadau am beth o'r trawsnewid sydd wedi taro cefn gwlad. Falle wir bod yr ailddefnydd o adeiladau a godwyd yn wreiddiol fel capeli ac sydd bellach yn gartrefi yn newid amlwg i'r llygad ond mae o hefyd yn cyfleu newid ym mhatrwm arferiad a byw.

Mae teitl y gerdd yn crynhoi ei chynnwys ond mae'r cymeriad llythrennol (A yn yr achos yma) a'r cyferbyniadau rhwng y llinellau yn gymorth i atgyfnerthu'r neges. Ac un obeithiol ydi'r bregeth erbyn ei diwedd ar ôl peth ceryddu!

## O ADDOLDY I AELWYD

Addoldy,
Adeiladwyd gan
Angerdd ac
Argyhoeddiad cenedl, lle'r
Anerchwyd cynulleidfa
Awchus gan
Apostolion diysgog eu cred.

Aberthwyd y cyffro a'r ffordd o fyw gan
Anffyddwyr gwamal a'u difaterwch bas.

Ar gau.
Adfeilio.

Ar werth.
Atgyfodi.

Arallgyfeirio,
Addasu.
Aelwyd newydd,
Ail gyfle,

Amen.

***Elwyn Caera***

Gwledd i'r llygaid a'r synhwyrau ddechrau'r flwyddyn fel hyn oedd gweld llechweddau cysgodol yn garpedi o eirlysiau gwynion. Roeddan nhw'n drawiadol. A rwan dyma'r cennin Pedr a'r briallu yn ymddangos, a hwythau'n hawlio eu lle fel y gwnân nhw'r amser yma.

Gweld y 'cynnwrf' yma a wna Elwyn Thomas yntau a gweld bywyd y gwanwyn, gan ein hatgoffa'n gynnil bod angen gwneud yn fawr o'r arwyddion gobeithiol. Ac os buo 'na angen erioed i feithrin y blagur yn dyner a gofalus, wel dyma fo.

## TYMHORAU

Yn gynnwrf yn y pridd
Mae bywyd newydd.
Blagur yn britho'r ffridd
A glasu'r gweunydd.

Egin yn ymwthio
O'u daeargell ddofn,
Eu hoen a'u hegni'n herio
Pob gofid a phob ofn.

Gobaith glesni'r gwanwyn
Yn ei wyrddlas ir,
A'r gaeaf llwm a'i wenwyn
Yn araf ildio tir.

Minnau, fel pob meidrolyn,
Â'r dyddiau yn prinhau,
Yn meithrin pob blaguryn
Boed eto pa mor frau.

***Elwyn Thomas***

Diolch i'r beirdd am eu cerddi. Anfonwch eich cyfraniadau i'r golofn at Dewi R. Jones, Llys Gwyn, Muriau, Cricieth neu trwy gyfrwng ebost: dewirjones57@outlook.com

# Peredur a'r pŵer

HYNOD DDIFYR oedd gwrando ar Peredur Davies, Llecyn, Pencaenewydd yn siarad ar raglen Aled Hughes ar Radio Cymru yn ddiweddar.

Bu Peredur, sy'n beiriannydd rheolaeth ac offeryniaeth (*control & instrumentation*) yn Ninorwig yn trafod batris – ond nid rhyw fatri bach y basach chi'n ei roi yn eich tortsh i weld yn well. Naci wir, egluro roedd o sut mae'r gwaith yn Ninorwig wedi bod yn 'fatri' mwyaf Prydain ers rhyw 40 mlynedd bellach.



Mae'r gwaith yn cynnig sefydlogrwydd a thrydan ar fyr rybudd i'r grid cenedlaethol trwy ddefnyddio ynni potensial dŵr wedi ei godi ar uchder o oddeutu 600m yn Llyn Marchlyn Mawr, a'i ollwng ar adegau gwahanol yn ystod y dydd trwy hyd at chwe tyrbin 300 MW yr un i gynhyrchu trydan, cyn i'r dŵr wedyn ddod i orffwys yn Llyn Peris. Dros nos bydd yr orsaf yn prynu trydan i mewn o'r Grid a phwmpio'r dŵr yn ôl i fyny i Lyn Marchlyn yn barod am y bore canlynol.

Mantais fwyaf gorsaf fel Dinorwig yw'r hyblygrwydd i gynhyrchu fel bo'r galw, ac mewn argyfwng gall yr orsaf fynd o ddim i bŵer llawn mewn ychydig o dan ddeg eiliad.

# Mynwent Chwilog

BRAF IAWN ydi cael adrodd y mis hwn bod y lôn i'r fynwent ym mhentref Chwilog bellach wedi ei hailwynebu. Golygodd gryn dipyn o waith a bu'n rhaid cau'r ffordd am gyfnod byr ond hyderwn y bydd y gwaith gorffenedig yn plesio.



Cwblhawyd y gwaith gan gwmni N. Williams a'i Fab, Gydrhos, Y Ffôr a thalwyd amdano o goffrau Pwyllgor y Fynwent gyda chyfraniad sylweddol hefyd gan Adra gan fod y tai ar ochr chwith y ffordd yn eiddo i'r asiantaeth honno.

Mae angen ychydig o waith eto er mwyn codi ochrau'r ffordd ond gobeithir y bydd y cyfan wedi ei gwblhau yn y dyfodol agos. Os teimlwch yr hoffech gyfrannu at gostau rhedeg y fynwent derbynnir cyfraniadau'n ddiolchgar iawn gan y trysorydd, Dr Gwyn Williams, Afallon, Chwilog.


**Tom Parry a'i Gwmni**
80 Stryd Fawr, Porthmadog
Ffôn: (01766) 512 505 / 513 164
Syrfewyr, Arwerthwyr a Goruchwylwyr Ystadau
Arwel Williams FRICS
Phil Williams MRICS

**H. Williams**
Gwasanaeth ar gyfer unrhyw waith cynnal a chadw yn eich gardd.
Ffoniwch:
(01766) 762 329
(07513) 949 128

**MOTOBEICS**
GWION PRYS MOTORCYCLES
Nantcyll Uchaf
Pantglas, Garndolbenmaen LL51 9DJ
(01766) 530 831 / (07900) 594 946
Rwy'n cynnig gwasanaeth lleol am bris cystadleuol
Safle MOT
Trwsio a gwasanaethu motobeics o bob math yn ogystal â 'Quad Bikes'
Gwasanaeth casglu a danfon ar gael




123 – dyna ydi rhif y map OS sy'n ymgorfforiad o gartograffeg ar ei orau. Dyna farn Mike Parker, awdur y gyfrol hynod ddarllenadwy, diddan a dadlennol *Map Addict*. Dadlennol am fod cyffes Mike Parker amdano'i hun pan oedd yn bedair ar ddeg oed yn dwyn mapiau o'r Educational Bookshop yng Nghaerwrangon er mwyn porthi ei chwant i gasglu pob un o'r 204 o fapiau OS. Diddan am ei fod yn disgrifio'r weithred o ddwyn y mapiau fel consuriaeth a fyddai wrth fodd neb llai (wel, dim llawer llai) na Paul Daniels. Darllenadwy – dyma i chi chwip o frawddeg: 'There's a sinewy sparseness to this map, a sense of quiet perfection with nothing spare: in the area that became the bulwark and muse of R. S. Thomas, it's the cartographic equivalent of one of his poems'.



***Castell Cricieth sydd ar ymyl ddwyreiniol map 123 a Garn Fadryn tu hwnt. Pwy all roi'r cyfeirnod grid o ble tynnwyd y llun?***

Ie, y map o Benrhyn Llŷn sy'n dod i'r brig ar y rhestr o hoff fapiau Mike Parker. Mi benderfynwyd mai da o beth fyddai gwahodd Mike yn westai ar *Galwad Cynnar* i drin a thrafod ei hoff fapiau o Gymru. Awgrymais innau ar y rhaglen y bore Sadwrn cynt y byddai'n syniad i gael map 123 wrth law er mwyn dilyn y sgwrs y Sadwrn canlynol. Pwy oedd yn methu'n lân a chael hyd i fap 123 ar y nos Wener cyn y sgwrs efo Mike? Ie, dyna chi, cyflwynydd *Galwad Cynnar*! Mi wnes ryw lun o esgus fy mod i'n eithaf siŵr bod rhywun wedi cael 'benthyg' fy map 123. Trwy drugaredd roedd Mike wedi gyrru ambell i siot sgrîn o'i hoff rannau o'r map gan gynnwys y lle sydd yn ei eiriau o yn 'galon y map', sef Garnfadryn – 'Garn 'cw' i'r Garnfadryniaid. Lle hynod, a lle sy'n teilyngu tri enw ar y map – 'Garn' i'r ardal, 'Carn Fadryn' i'r mynydd, a 'Carn Fadrun-fort' i'r fryngaer.


Dau beth cyn tewi. Diolch a dirgelwch. O fewn diwrnod wedi'r sôn am roi 'benthyg' map 123, dyma ebost i galwadcynnar@bbc.co.uk. Un o swyddogion gweithgar Y Ffynnon yn cynnig ei chopi i mi – diolch o galon i chi MG!

Y dirgelwch ydy'r 'u' yn 'Garn Fadrun-fort'. Hon ydi'r 'u' sydd gan Gruffudd Parry yn ei drem ar y 'Garn 'cw' yn *Crwydro Llŷn ac Eifionydd*. Atebion, os gwelwch yn dda – mae'r e-gyfeiriad uchod!




TONIC
Therapydd Harddwch
Cricieth
Am apwyntiad cysylltwch
â Nan ar **(07729) 291 930**

Gwasanaeth Trin Traed
Yn eich cartef
Richard Thomas SrCh.
**Ffôn: (01758) 612 384**
ar ôl 5 o'r gloch



JOHN TUDOR
Cyfrifydd Siartredig Ardystiedig
CYFRIFON
TRETH AR WERTH
PAYE
TRETH INCWM PERSONOL A BUSNES
CYNGOR I DDATBLYGU BUSNESION
(01758) 701 755 • (07977) 910 925
help@jtudor.co.uk
John Vaughan Tudor FCCA
3 Kingshead, Pwllheli, Gwynedd LL53 5DR
*Archwilydd wedi ei gofrestru gan*
*Gorff Cyfrifwyr Siartredig Ardystiedig*
ACCA




## Lillian Hughes

**1. Cefais fy ngeni a'm magu yn:**
28 Caerffynnon, Llanystumdwy yn un o saith o blant

**2. Rwy'n byw yn awr yn:**
Elidir, Llanaelhaearn

**3. Fy swydd yw:**
Cyd-berchennog Ceiri Garage, Llanaelhaearn hefo fy ngŵr Ifan, a gwarchod y ddwy wyres Alys a Lili

**4. Pa swydd ar wahân i'ch swydd bresennol a fyddech chi yn hoffi wneud?**
Dim un – mae cael gwarchod Alys a Lili yn swydd werth chweil

**5. Person Sioe neu Eisteddfod?**
Eisteddfod – ac yn edrych ymlaen yn fawr iawn i'r flwyddyn y byddwn yn cael ei mynychu eto

**6. Beth yw eich car presennol?**
Suzuki Wagon R ffyddlon iawn

**7. Pa gar hoffech chi gael?**
Mae'r Suzuki bach yn grêt o gar ac yn fy mhlesio, a dim angen dim byd gwell i fynd â fi o A i B

**8. Pa raglenni y byddwch yn gwrando fwyaf arnynt ar Radio Cymru?**
Rhaglenni dydd Sul yn enwedig *Beti a'i Phobl*

**9. Pa raglenni y byddwch yn eu gwylio fwyaf ar S4C?**
Mae'n rhaid dweud fod yna lawer o raglenni da iawn wedi bod ar S4C yn ddiweddar a dwi wedi mwynhau *Sgwrs Dan y Lloer* yn ofnadwy; hefyd byddaf yn hoffi gwylio *Cefn Gwlad* a *Ffermio*

**10. Pa beth fydd yn gwneud i'ch gwaed ferwi?**




*Lillian y tu allan i'w chartref*

Pobl sydd ddim yn clirio baw eu cŵn!

**11. Pa anifeiliaid anwes sydd yn byw yn eich tŷ chi?**
Dim un, ond dros y blynyddoedd pan oedd y plant yn fach mi fuo yma gwningen o'r enw Pwtyn, bwji o'r enw Pip ac oen llywath o'r enw Mari

**12. Pe buasech yn ennill pryd o fwyd i dri mewn gwesty moethus 5 seren pa ddau berson arall fuasai'n cael y fraint o'ch cwmni?**
Ifan y gŵr a fy mam Olwen

**13. Sut fyddwch yn ymlacio?**
Ymarfer Côr Lleisiau Mignedd ar nos Lun (pan oeddem yn cael cyfarfod) ac rwy'n edrych ymlaen yn fawr iawn i'r amser yma ddechrau yn ôl eto. A rwan rwy'n ymlacio trwy wneud croeseiriau a chwilair bob hyn a hyn

**14. Pa un yw eich hoff siwrnai?**
Beth yw peth felly y dyddiau hyn?

**15. Pa berson ydych yn ei edmygu?**
Fy mam, am fagu fy mrodyr ieuengaf ar ôl colli ein tad yn ifanc

**16. Beth yw eich hoff anifail?**
Dim un yn arbennig, ond mae Alys a Lili wrth eu boddau yn dangos yr ŵyn bach a'r lloua i mi ar y fferm wrth fynd am dro

**17. Ar daith hir yn y car pa CDs fyddwch yn gwrando arnynt?**
Meibion Dwyfor a Lleisiau Mignedd wrth gwrs

**18. Sut y byddech yn hoffi cael eich cofio?**
Fel gwraig, mam a nain annwyl a chariadus

**19. Beth sy'n eich digalonni?**
Clywed hanesion am gamdrin plant, a'r tlodi yn ein byd heddiw


**20. Pa amser o'r dydd sydd orau gennych?**
Y bore – a diolch am gael codi bob bore

**21. Pryd ac yn lle y buoch hapusaf?**
Dwi'n fodlon iawn fy myd adref yma yn Elidir

**22. Gyda phwy y buasech yn hoffi treulio penwythnos?**
Y teulu cyfan, gan edrych ymlaen yn fawr at y diwrnod y cawn ni i gyd ddod at ein gilydd yn un criw mawr swnllyd a hwyliog

**23. Beth yw eich syniad o hapusrwydd perffaith?**
Cael iechyd a byw mewn byd heb Cofid-19

**24. Petai'n rhaid i chi adael Cymru pa wlad arall fyddai eich dewis a pham?**
Fyswn i byth yn meddwl gadael Cymru Fach. Rydym yn lwcus o gael byw mewn lle mor hardd, a fedra i ddim meddwl am unlle gwell

Cyfrifwyr Lleol
Dewch am sgwrs i weld os gallwn fod o wasanaeth i chi
Paratoi Cyfrifon
Treth ar Werth (MTD)
Cadw Llyfrau Ariannol
Ffurflenni Treth
Enillion Cyfalaf
Treth Etifeddiaeth
Cyflogau a Biwro BACS
Digideiddio'r Dreth (MTD)

Griffith, Williams & Co.
CYFRIFWYR SIARTREDIG A CHYNGHORWYR BUSNES | CHARTERED ACCOUNTANTS AND BUSINESS ADVISERS
(01758) 701 701
post@griffithwilliams.co.uk
www.griffithwilliams.co.uk




# Lobsgows



CAWL fyddai llawer yn gysylltu hefo Gŵyl Ddewi mae'n debyg, ond i mi lobsgows sy'n mynd â hi bob tro.

Y peth tebyca ydi bod gan bawb ei rysáit a'i ddull ei hun o greu'r bowlen gnesol, flasus hon, ond fel hyn dwi wedi ei neud erioed. Potsh di-lol a didrafferth.

Dwi'n defnyddio cig eidion ond mae cig oen yn gweithio llawn cystal wrth gwrs.

**Cynhwysion:**

Pwys o goes las
5 tysen nobl
5 moronen nobl
2 nionyn mawr
Hanner meipen
Digon o ddŵr berw i orchuddio'r cwbl mewn crochan go fawr
Pupur a halen

**Dull**

Gosodwch y goes las ar waelod y crochan. Torrwch y nionyn ar i lawr fel bod y darnau'n siâp gewyn lleuad. Torrwch weddill y llysiau i gyd tua'r un maint a chymysgwch y cyfan a'u rhoi ar ben y cig yn y crochan. Gorchuddiwch y cwbl hefo'r dŵr berw a gadael i'r cyfan fudferwi am ryw ddwyawr neu nes bydd y cig yn frau, frau. Rhwygwch y cig yn ddarnau o tua modfedd sgwâr. Cyn gweini, ychwanegwch bupur a halen at eich blas.

Dwi'n mwynhau fy lobsgows hefo bara Ffrengig a menyn yn dew arno a chaws. Mwynhewch.

**Rhowch gynnig arni!**




**Annwyl Olygydd,**

DARLLENAIS yr erthygl 'Wyddoch Chi?' yn rhifyn Chwefror o'r Ffynnon ar Alice Gray Jones (Ceridwen Peris). Mae'n dweud yn yr erthygl ei bod hi a'i gŵr wedi symud i Gricieth yn 1919 ond nid ydynt yn gwybod i ble yno. Gallaf gadarnhau mai i Padarn, Rhesdai Cambrian y symudodd y ddau, a ninnau fel teulu a symudodd yno ar eu holau.

Gan ddiolch i bawb sy'n ymwneud â'r papur a chofion at bawb yn ardal Y Ffynnon.

***Evie Wyn Roberts***

**Annwyl Olygydd,**

LLAWER o ddiolch i chi am eich papur misol hynod ddifyr a lliwgar. Roedd eich erthygl 'Wyddoch chi?' yn rhifyn Chwefror yn cyfeirio at Blas Holland ac yn benodol at englyn gwallus o waith William Evans, Tyddynyfelin sydd i'w weld ar dalcen gorllewinol y tŷ gyda'r dyddiad 1786 wedi ei nodi dano. Yn wir aethpwyd cyn belled ag awgrymu nad oedd o'n englyn o fath yn y byd!

Digon teg, ond ystyriwch hyn – a dyfynnaf o gyfrol werthfawr Guto Roberts *Eifionydd* (Cyfres Broydd Cymru) ynglŷn â'r William Evans druan yma sydd dan y lach – sef 'nad oedd ond pedair ar ddeg oed os cywir ei eni yn 1772 yn ôl Myrddin Fardd yn *Enwogion Sir Gaernarfon* (Caernarfon 1922)'.

Chwarae teg iddo, ddyweda i.

Yn gywir,
**Collwyn Gruffydd**
Betws, Llandinam, Y Canolbarth

GARETH LEWIS JONES
ADEILADWR
Ymgymerir â phob math o waith adeiladu
ESTYNIADAU • PLASTRO
TRAWSNEWID ADEILADAU
GOSOD A THRWSIO TOEAU
GWAITH CARTHFFOSIAETH
(01766) 810 233

# Déja vu bach

FLWYDDYN UNION yn ôl (ar 10 Mawrth 2020) mi sgwennais i fel hyn:

'Erbyn i'r Ffynnon fynd i'w wely'r mis yma Duw a ŵyr be fydd ein hanes ni i gyd yn sgîl lledaeniad y Coronafeirws bondigrybwyll. Efallai y byddwn ni, neu rai ohonon ni, wedi'n gwahardd rhag teithio. Efallai y byddwn ni i gyd ar loc-down yn ein tai, yn gwylio hen gyfresi *C'mon Midffîld* a byw ar basta-sôs, ac yn damio na ddaru ni feddwl prynu mwy o ffig-rôls cyn i'r siopau gau, neu gael eu gwagio gan locustiaid yn panig-brynu.'

Er mai gwamalu roeddwn i ynglŷn â'r manylion, buan iawn y daeth y broffwydoliaeth yn wir, heb fawr o syndod. Ond pwy fysa wedi meddwl bryd hynny y bysan ni'n *dal* i fod dan glo flwyddyn gyfa gron yn ddiweddarach?!

Rai wythnosau i mewn i'r clo mawr mi ddois i ar draws neges ar Trydar gan rywun diarth oedd wedi mynd ati i gasglu a rhestru'r mân bethau oedd yn cynnig cysur a llawenydd iddo yn ystod y cyfnod rhyfedd newydd oedd ohoni – y 'pethau bychain' os mynnwch chi. Roedd y rhain yn amrywio o'r llymaid cyntaf o goffi yn y bore, gwylio'r adar bach yn bwydo trwy'r ffenest, meddalwch ei hoff siwmper wlân, y sglein ar lawr y gegin ar ôl ei olchi, arogl y dillad yn sychu ar y lein, sŵn y tân coed yn clecian wrth i'r fflamau gydio, ac yn y blaen.

Mae'n debyg mai ei fwriad oedd ei atgoffa'i hun o fawredd a phwysigrwydd y pethau bychain yma – yr eiliadau a'r teimladau sy'n rhoi blas a lliw ar fywyd. O'u rhannu â'r byd roedd o'n eu gwerthfawrogi nhw o'r newydd, tra'n tynnu sylw pobol eraill at y mân gysuron yn eu bywydau hwythau. Ac yn wir, o dipyn i beth, aeth eraill ati i rannu eu 'pethau bychain' hwythau – arogl y gwair newydd ei dorri yn yr ardd, siglo ar gadair siglo, brathiad o afal suddog... Daeth y mân bethau yn llifeiriant o bob cyfeiriad, gan ein hatgoffa ni i gyd gymaint sydd ganddon ni i fod yn ddiolchgar amdano. Does dim prinder o ryfeddodau o'n cwmpas bob dydd, clo neu beidio, dim ond inni sylwi a myfyrio arnyn nhw am ennyd. I ddyfynnu Bob Delyn a'r Ebillion:

'Ew dyna ichi strach
trio cael hyd i sach
i gadw'r holl bethau bach!'

Yn yr un erthygl mi soniais i ei bod hi'n 'teimlo fel petaen ni'n nesáu at ddibyn serth; er nad ydan ni wedi cyrraedd yr erchwyn eto, mae o fewn golwg, ac ansicrwydd yr hyn sydd y tu hwnt iddo yn ddychrynllyd o agos.' Dibyn o fath gwahanol sydd o'n blaenau ni heddiw, a goleuni rhyw fath o normalrwydd ôl-frechiadol yn pefrio ohono. Dros y misoedd nesaf, wrth i'r cyfyngiadau lacio, a ninnau'n cael rhyddid i wneud rhai o'r pethau mawr y buon ni'n dyheu am eu gwneud ers tro byd, efallai mai'r her fydd parhau i werthfawrogi'r pethau bychain, bach.

***Gwyneth Glyn***


R. L. JAMES
Peiriannydd Gwresogi
Rhodri1@hotmail.com
(07852) 156 064



STRAIN A'I GWMNI
CYFREITHWYR
Gwaith teulu • Achosion sifil neu iawndal • Trosedd
14a Stryd Penlan, Pwllheli, Gwynedd LL53 5DH
(01758) 455 500 www.strainaigwmni.cymru



Susan Jones
Os ydych am
**WERTHU** neu **BRYNU**
Tŷ, busnes neu dir amaethyddol
Gwasanaeth 7 diwrnod yr wythnos
Y dull NEWYDD o werthu
www.susanjones.cymru
susan@susanjones.cymru
01758 614511 ☎ 07787 124587

# Motos ar y meddwl



TYBED fedrwch chwi gofio pryd y rhoesoch betrol neu ddisl yn y car ddiwethaf? Yn ôl pob arwydd ni fydd yn rhaid ymorol am hynny o gwbl mewn dim o dro. Mae cerbydau trydan yn dechrau ymddangos ar y ffyrdd eisoes. Fel y gwelwyd yn Ffynnon mis Ionawr daeth un i Lanaelhaearn, ac yn hwnnw, meddir i mi, y dosberthir y ffisig a'r pils o'r feddygfa leol.

Does neb a wâd wrth gwrs na werthir llawer iawn llai o betrol nag a wneid cyn y cloi. Cafodd cwmni BP golled o £18 biliwn yn 2020. O'i roi yn fyr fel yna a'i ddarllen yn sydyn efallai nad ymddengys yn swm enfawr i'r cyfoethogion yn eich mysg, ond os ewch ati i gyfrif sawl 0 sydd ar ôl y deunaw y mae'n stori wahanol. Yn ôl Geiriadur y Brifysgol miliwn wedi'i luosogi filiwn o weithiau ydyw biliwn, ond yng ngeiriadur Saesneg Chambers cawn ddewis – un ai £18,000,000,000 neu £18,000,000,000,000. Ond dyna fo. Beth yw 0 neu ddau neu dri rhwng ffrindiau.

Mae cynifer o bobl yn gweithio gartref erbyn hyn heb fod angen car, a bu'n rhaid i mi fenthyca peiriant o Gaenewydd i danio fy Ffordyn rywbryd y llynedd oherwydd iddo fod yn segur cyhyd. Bellach gwelir ambell gar gyda thyfiant o fwsogl ar waelod y ffenestri hyd yn oed.

Pan nad oes angen tanwydd mae digonedd i'w gael am bris sy'n codi, ac mae hynny mor wahanol i'r hyn a fodolai chwe blynedd a thrigain yn ôl. Roedd prinder petrol yn 1956 yn sgil yr anghydfod rhwng Prydain dan arweiniad Anthony Eden a Gamal Abdel Nasser, Arlywydd yr Aifft. Yr hyn a wnaeth Nasser oedd gwladoli Camlas Suez – a'i chau.

Yn y dyddiau hynny fe deithiwn i ryw 35,000 milltir mewn blwyddyn. Mini fu'r car am gyfnod go lew. Bu gennyf saith ohonynt yn olynol ac yr oeddynt wrth gwrs yn rhesymol iawn o safbwynt eu pellter i'r galwyn. Wel, ni fu'r un Mini i'w gymharu â'r car y gwyddai fy nghyfaill Ben amdano erstalwm. Roedd y car hwnnw ar y lôn bob dydd ond fe ddefnyddiai cyn lleied o betrol nes bod caead y tanc yn rhydu yn ei le.

Yn 1956 a minnau'n dibynnu ar betrol i wneud fy ngwaith bu dwy garej yn hynod o garedig wrthyf – garej John Williams ym Mhontllyfni pan awn am Gaernarfon ac i'r gogledd ar drywydd stori, a garej Talybont (Ceredigion) yn y de. Dylswn gofio enw perchennog rhadlon y lle hwnnw hefyd gan fy mod mor ddyledus iddo, ond aeth y blynyddoedd ysywaeth yn drech na'r cof.

Rhwng Gorffennaf 1956 a Mawrth 1957 y bu camlas Suez ynghau y tro hwnnw. Dechreuwyd ei hadeiladu (os dyna yw'r gair) yn 1859 a'i hagor ddeng mlynedd yn ddiweddarach. Y gŵr a fu'n gyfrifol am ei chreu oedd Ffrancwr o'r enw Ferdinand de Lesseps, llysgennad gwleidyddol a ffurfiodd gwmni i'r diben penodol hwnnw.

Dwywaith y bûm i drwy'r gamlas – unwaith ar fy ffordd i Sri Lanka yn 1943 ac ar y ffordd yn ôl wedyn yn 1946. Gwn ei bod yn 120 milltir o hyd a bod llyn mawr yn ei chongl, y Great Bitter Lake, ond ni wn beth yw ei lled yn y man lletaf na chulaf. Nid yw'n llydan iawn beth bynnag oherwydd fe glywem ni'r milwyr a safai ar y lan, a lliw haul yn danbaid ar eu cyrff, yn ein cyfarch ni'r diniweitiaid golau eu crwyn gyda'r ymadrodd 'Get your knees brown, Jack' wrth i'r llong fynd trwodd. Roedd ein pengliniau ninnau hefyd yn ddigon tywyll ar y ffordd adref.

Fel y crybwyllais, am wyth mis y parhaodd yr anghydfod a chofiaf mai capten y llong olaf i ddod trwy'r gamlas cyn iddi gau oedd y diweddar Capten Wil Roberts o Edern, brawd y ddiweddar Mrs Judith Griffith, mam Gwyn Rhys, garej y Ffôr.

O'r fan honno y caf y mymryn petrol a geisiaf y dyddiau hyn.


***D.E.***


IGAM OGAM
CYNLLUNWYR GWALLT
44 Stryd Fawr
Cricieth
**(01766) 522 217**
*Arbenigo mewn torri, lliwio a phermio*

Ciropodi • Podiatri
**Iola Roberts**
P.G.Dip, D.Pod.M, MCPod
HCPC Cofrestredig
*Galwadau i'r Cartref*
Symudol:
**(07771) 278 633**


**Ffenestri Dwyfor**
Cae Llyn, Garndolbenmaen, Gwynedd LL51 9TZ
**Ffôn: (01766) 530 397 / (01766) 530 514**
ebost: mowen2549@aol.com
**www.fdwarlein.com**
**Drysau a Ffenestri o bob math a defnydd**
Holwch am ein toeau LivinROOF chwyldroadol ar gyfer eich ystafell haul neu estyniad
Cwmni Cofrestredig FENSA Registered Company
LivinROOF by ultraframe

**TAFARN Y PRINS CRICIETH**
**(01766) 522 556**
**Bwyd da ar gael**
*Croeso cynnes i bawb gan Eirian, Phil a'r criw*




# O Wynedd i Wuhan a Phasg mwy

ROEDD 23 Chwefror yn ddiwrnod du iawn yn Ysbyty Gwynedd. Bu'n rhaid cau wardiau am fod dros 70 o gleifion wedi cael prawf positif. O fewn dim daeth y newydd fod Harry, cyntafanedig Delyth a Dean o Bwllheli, wedi ei gofrestru yn yr Adran Famolaeth yn 7 bwys 7 owns. Ond roedd Harry wedi'i eni mewn ambiwlans ym maes parcio Asda Pwllheli. Doedd neb ar wardiau'r Cofid yn gwybod am gyffro'r 'bywyd newydd i'r byd' yn Asda. Bu'n rhaid i Delyth a Dean fynd i Fangor i wneud yn siwr fod Harry yn iach, aros dros nos, ac adra i Bwllheli ben bora yn deulu o dri. Mae Dean yn gweithio yn Asda a gofalwraig i'r henoed bregus yw Delyth. Gyda llaw, y dydd Gwener ar ôl cau'r wardiau, ac wythnos wedi geni Harry, roedd diwrnod brafiaf y flwyddyn yn croesawu'r gwanwyn cynnar.



*Coed ceirios yn blodeuo ar 8 Mawrth eleni yn Wuhan, tarddle'r Cofid*

Yn achosion enwog Nuremburg i droseddau'r rhyfel roedd un tyst wedi cuddio rhag y Gestapo mewn mynwent Iddewig yng Ngwlad Pwyl. Roedd nifer yn y fynwent i warchod teuluoedd rhag y siamberi nwy ac yn eu plith ŵr a ysgrifennodd gerdd am fam ifanc yn geni plentyn yn y bedd lle roedd hi'n cuddio. Bu torrwr beddau o Iddew 80 oed yn helpu efo'r geni. Pan ddechreuodd y babi grio gwaeddodd yr hen Iddew yn uchel, 'Dduw mawr, a yw'r Meseia wedi dod? Pwy ond y Meseia fyddai'n cael ei eni mewn bedd?' Mae'n stori enwog, ac yn stori wir.

Fe fydd yn 'fwy o Basg' eleni. Nid yn Basg gwahanol ond yn **fwy** o Basg i ni sydd wedi byw drwy bandemig mor ddifaol. Mae gobaith y bydd rhai o arferion ein Pasg arferol yn bosibl: mynd i'r fynwent ar Sul y Blodau; rhannu wyau Pasg; anfon cardiau Pasg i ddymuno 'Pasg hapus i chi', gan ychwanegu 'gobeithio y cawn weld ein gilydd'; y gobaith o gael addoli yn yr eglwys neu'r capel eto, a chlywed stori'r Pasg a chanu hoff emynau'r Pasg. Ond i bobol 'y diflannu ar frys i haul tramor' fe fydd yn rhaid bodloni ar hyfrydwch Llŷn ac Eifionydd. Lle gwell i ddathlu'r Pasg wedi'r gaeaf?

I'r Cristion nid oedd y Croeshoeliad a'r bedd yn ddiwedd ar berthynas Iesu â'i ddisgyblion. Roedd hi'n berthynas oes ac yn un bersonol iawn. Dyna brofiad pawb sy'n ei ddilyn. Ond y mae'n fwy eleni. Mae llythyr yn y Testament Newydd yn cymharu'r Atgyfodiad i greu'r byd ond y mae bellach yn gread a bywyd newydd. Crist y Pasg, meddai'r llythyr, yw'r cyntaf a'r mwyaf yn y creu newydd. Mae'r Pasg yn dathlu 'fod bywyd yn drech na marwolaeth, fod gobaith yn fwy nag anobaith a bod yna olau na all tywyllwch ei ddiffodd' – gweddi Basg Desmond Tutu. Ac fe fydd y Pasg eleni, trwy'r byd – ac yn Wuhan – yn ddiolch i Dduw am hynny.

Boed yn Harry a gyrhaeddodd yn wyrth o fywyd newydd yn Asda ac a aeth ymlaen i ysbyty llawn ofn a galar, neu'r hen dorrwr beddau a gredai fod y Meseia wedi dod yn fywyd newydd o'r bedd, dyna'r 'mwy o Basg' eleni na fedrwn ni mo'i amgyffred yn llawn. Dim ond ei ddathlu.

Belio a Lapio Byrnau Mawr
Rotospeicio gyda Thractor a Pheiriant Torri Gwrychoedd
Cysylltwch ag
Erfyl Lloyd
CASTELLCOED
CHWILOG
Ffôn:
(01766) 810 396



Cwmni TARIAN Cyf.
Cyngor ar Bensiynau a Buddsoddiadau
Gwasanaeth Ariannol i Fusnesau ac Unigolion
Cysylltwch ag Aled Evans
Ffôn: (01758) 613 030 • (07786) 015 186
Ebost: post@tarian.co.uk
www.tarian.co.uk
Cwmni Tarian Cyf. • 7 Sgwâr y Farchnad • Pwllheli LL53 5RU
Mae cwmni Tarian Cyf. yn gynrychiolydd apwyntiedig o LJ FINANCIAL PLANNING LIMITED, wedi ei awdurdodi a'i reoli gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol

W. H. Evans
Melin Llecheiddior, Bryncir
Ffôn/Ffacs: (01766) 530 635
Masnachwyr Amaethyddol

- Welingtons
- Dillad Glaw
- Offer ar gyfer y fferm
- Stanciau ac offer Ffensio
- Gwrteithiau
- Glo



- Bwydydd Anifeiliaid, bagiau mawr a bach
- Bylc
- Bwyd Cŵn
- Pwlp Betys
- Gwair a Gwellt
- Blociau

# A MANAG AUR

DYMA ATEBION y 'Pos Plant Ysgol' yn rhifyn Chwefror: 1 Pigyn Clust, 2 Brech yr Ieir, 3 Clwyf Pennau, 4 Taflu i Fyny, 5 Dolur Rhydd, 6 Anwyd* Pen, 7 Brest Gaeth, 8 Y Frech Goch, 9 Dolur Gwddw 10 Dolur Anwyd*.

* Rhaid i mi ymddiheuro am wneud gwall sillafu a'ch camarwain efallai yn atebion 6 a 10. Wrth gwrs, mae dwy lythyren 'n' yn y gair 'annwyd' ac nid un fel y rhoddais i.

Mae rhoi 'di-', 'an-' neu 'ann-' o flaen gair weithiau yn newid ystyr y gair hwnnw a'i wneud yn air negyddol a nacaol. Dyma enghreifftiau: symud > ***di***symud, diwedd > ***di***ddiwedd, hapus > ***an***hapus, teg > ***ann***heg. Felly dyna'r dasg y tro yma – datgelu deg o eiriau negyddol gyda'r rhagddodiaid di/an/ann.

******Gair o Eglurhad ******

Er lles a thegwch â phawb yn yr amser dyrys yma gofynnir i chi'n garedig ***i beidio*** ag anfon atebion fel arfer mewn ebost na thrwy'r post. Diolch am eich cydweithrediad. Cynhwysir y pos uchod yn unig er mwyn i chi gael rhywbeth i'ch diddori mewn cyfnod mor ddiflas! Cewch yr atebion yn rhifyn y mis nesaf. Hysbyswn chi pan fyddwn yn ailafael o ddifri yn y gystadleuaeth unwaith eto.

## Pos Negyddol

1. SANT A DAW *(8)*

– – – – – – – –

2. BRIFO DADI *(9)*

– – – – – – – – –

3. NON YN MALU *(9)*

– – – – – – – – –

4. IOLO I BETHAN *(10)*

– – – – – – – – – –

5. I DDARN O LÔN *(9)*

– – – – – – – – –

6. MAN EI DYDD *(8)*

– – – – – – – –

7. DY GLWY IDDI *(9)*

– – – – – – – – –

8. CRAIDD Y SŴN *(9)*

– – – – – – – – –

9. ANTURIA NÔL *(10)*

– – – – – – – – – –

10. DENAF YSGOL (10*)*

– – – – – – – – – –

*Diystyrwch bob atalnodiad. Cofiwch mai un llythyren yw* ***'ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th'****.*


WONDERLING TRAVEL
12 Y Maes : Pwllheli
Gwynedd LL53 5HD
01758 703 194
sales@wonderlingtravel.co.uk
www.wonderlingtravel.co.uk

E. F. & E. O. WILLIAMS a'u meibion
Ymgymerwr Amaethyddol a Chario
Chwalu Calch a Llwch
Profi Pridd di-dâl • Torri Silwair a Phorfa
Cyflenwyr Tywod, Grafael a Cherrig Traenio
Y Tŷ Gwyn, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd LL53 6AY
(01758) 720 246 neu 720 333



# Rhodwyr Llŷn

Gwynfor Jones

RHYFEDDAF weithiau at ambell gyd-ddigwyddiad. Gallant bron roi'r argraff bod y colofnau yma'n cael eu cynllunio'n fanwl fisoedd ymlaen llaw (does dim byd yn bellach o'r gwir wrth gwrs). Ond ar yr union noson ag y daeth rhifyn mis Chwefror o'r Ffynnon dros y trothwy yma, be welais i ar y teledu? Y gyflwynwraig Kate Humble yn mynd am dro ar lwybr arfordirol yng Ngwlad yr Haf a Dyfnaint. Galwodd i mewn i'r union eglwys yn Culbone/Cil Beuno y cyfeiriais ati yn fy ngholofn mis dwytha. Os oes rhywun am weld y rhaglen mae modd ei hailchwarae o greu cyfrif gyda Sianel 5 a dioddef ychydig o hysbysebion.

Ond ymlaen â'r daith ac i lawr â ni o'r Gesail Gyfarch am yr A487, ei chroesi ac ymlaen trwy Benmorfa i gyfeiriad Plasty'r Wern. O'i gymharu â Gesail Gyfarch prin oedd yr hen hanes y medrwn ei ganfod am y Wern, ond mae cyfeiriadau yn llyfr Alltud Eifion *Y Gestiana* fod tŷ yno yn 1622. Yn ôl Guto Roberts (Rhoslan) yn ei lyfr *Eifionydd* daeth y stad i fodolaeth wedi i Maddocks brynu tir yn ffinio â'r Traeth Mawr. Cynllun i elwa o greu'r Cob, o bosib. Yn ddiweddarach aeth y tŷ â'i ben iddo cyn i R. M. Greaves, perchennog chwarel y Llechwedd, godi'r tŷ presennol. Mae'n dŷ hardd, ac yn naturiol efallai yn Adeilad Rhestredig. Mae sawl dynodiad i rannau unigol, hyd yn oed y pwll addurniadol yn yr ardd a'r giatiau pren ger y Lodge oedd wedi eu mecaneiddio i'w rheoli o'r tŷ.

Croesi'r A497 ac am dro drwy goetir y stad i'r dde i'r lôn, coedwig a welodd ddyddiau gwell efallai. Ond mae'r Arolwg Ordnans yn eu galw yn Goed y Chwarel. A oedd gan Greaves gynllun i gloddio yma tybed? Ynteu a oedd yn well ganddo, fel perchnogion Castell Penrhyn a'r Faenol, fyw'n nes at y porthladd nag at fan cloddio'r llechi?

Cyn gadael y Wern rhaid nodi fod Guto Roberts yn *Eifionydd* yn crybwyll cynnal Eisteddfod y Wern yn 1796 fel 'y gyntaf y ceir sôn amdani yn y cylch'. Nodir hefyd i W. A. Maddocks noddi Eisteddfod Tremadog yn 1811. Mae'n debyg y bu i Ddafydd Du Eryri ennill am gerdd i'r Cob, oedd yn plesio'r beirniad mae'n rhaid – a'r noddwr mae'n siŵr.

Yn ôl am Bentrefelin i orffen taith hir ond braf ganol Rhagfyr. Ond nid heb yn gyntaf ymweld â safle tŷ llawer mwy di-nod mewn cymhariaeth sef Nhyra neu Nant Hyfran uwchben Pentrefelin. Dywedir bod teulu Ystumllyn wedi rhoi'r tŷ, a lle i gadw buwch, i Jack Black tua diwedd ei oes. Nid oes dim o'i ôl bellach ond o leiaf mae un gweithiwr cyffredin o'r cyfnod yn cael ei gofio yn ogystal â meistri'r Plas.

A dyna ni. Y gaeaf yn graddol ryddhau ei afael gobeithio, ond cofiwch y dywediad am fis Mawrth – i mewn fel oen ac allan fel llew. Gyda'r wlad i gyd yn deisyfu cael rhyddhad o'r cyfyngiadau, gobeithio y llwyddir i lacio mymryn heb ollwng y llew o'i ffau.




*Y Rhodwyr y tu allan i'r Wern [Llun: Eryl Thomas]*


**Blodau Eleri**

Blodau gwreiddiol, traddodiadol a modern ar gyfer pob achlysur.

**Priodasau yw ein harbenigedd**

34 Stryd Fawr
Cricieth LL52 0BT
**(01766) 522 626**
**www.blodaueleri.co.uk**



**Goleuo Llŷn**

Stryd Penlan, Pwllheli
Gwynedd LL53 5DE

**Goleuadau/Drychau**
**Offer trydanol/Gwresogyddion**

**(01758) 701 173 / (07816) 205 939**
info@goleuollynlighting.com
www.goleuollynlighting.com



**Canolfan Ffensio Glasfryn**
Ffordd Llanaelhaearn

**Postiau a pholion wedi'u trin**
**Rhisgl coed**
**Paneli gardd**
**Coed tân**
**Planciau o bob maint**

**Ffôn: (01758) 750 623**

Llawer peth anghyffredin yn bosib – ffoniwch i holi mwy.

# AR DRYWYDD YR ENWAU

MARGIAD BERTHAUR

## Y Filiast

YMATEB rydw i'r tro yma i gwestiwn gan Alun Ifans, Maenclochog, Penfro (Sarn Bach, Llŷn yn wreiddiol) sy'n derbyn Y Ffynnon yn rheolaidd trwy law ei chwaer Lis, Bryn Gwdyn Isaf, Y Ffôr. Gwn fod llawer ohonoch yn gyfarwydd ag Alun Ifans (cyn-brifathro ysbrydoledig Ysgol Cas-mael) ac wedi'i weld ar y teledu sawl tro yn y gorffennol yn cael ei holi am yr oriel ddarluniau enwog a sefydlodd yn yr ysgol.

Ar ôl iddo ddarllen cerdd 'Ffynnon y Filiast' gan Guto Dafydd yn Y Ffynnon dro'n ôl tynnwyd ei sylw gan yr enw ***filiast*** sydd hefyd yn enw (nid nepell o'i gartref) ar gromlech ***Gwal y Filiast*** yn Llanglydwen ar y ffin rhwng sir Benfro a sir Gaerfyrddin. Fel y dywed Alun, ystyr ***filiast*** (miliast wedi'i dreiglo, wrth reswm) ydi ast milgi, a ffau ydi ***gwal***. Ond pam fod ***miliast*** yn enw ar ffynnon ac ar gromlech ydi'r cwestiwn?

Wel, roedd anifeiliaid yn bwysig iawn yng nghrefydd ein hynafiaid y Brythoniaid a'r Celtiaid. Ystyrid llawer ohonynt yn gysylltiedig â rhyw dduw neu dduwies neilltuol a byddai nodweddion yr anifail hwnnw i'w weld yn y duw neu'r dduwies a'i cynrychiolai. Er enghraifft, cysylltid y filiast â'r lleuad ac â'r dduwies Ceridwen (a gysylltid hefyd â natur, ffrwythlondeb ac ailenedigaeth). Yn wir, un o sumbolau Ceridwen oedd y filiast, ac yn Chwedl Taliesin efallai y cofiwch i Geridwen ymrithio (newid ei ffurf) i filiast i geisio dal Gwion Bach a ymrithiodd yn gwnhingan! Felly, o sylweddoli fod cysylltiad rhwng y filiast a'r lleuad a ffrwythlondeb merch, gallwn werthfawrogi tarddiad enw ***Ffynnon y Filiast*** sydd yn Llaniestyn – ffynnon a ystyrid, yn ôl Myrddin Fardd, yn 'dra llesol i wendid menywaidd ac amhlantandrwydd'.

Ond be ydi'r cysylltiad rhwng y ***filiast*** a'r holl gromlechi sy'n dwyn ei henw yng Nghymru: ***Gwal y Filiast*** neu yn ***Llety'r Filiast*** (yn y Gogarth, Llandudno ac yn Rowen, Conwy) neu ***Llech y Filiast*** yn Llangoedmor, Ceredigion, Caerfyrddin a Morgannwg ac yn ***Twlc y Filiast*** yn Llangynog, Caerfyrddin ac Abertawe? Efo dipyn o ddychymyg gellir gweld tebygrwydd rhwng cwt ci agored a chromlech a dyna egluro'r elfennau: ***gwal, llety a thwlc a llech*** yn enwau'r cromlechi uchod. Gwelir yr elfen ***filiast*** mewn enwau carneddi hefyd e.e. ***Carnedd y Filiast*** ydi enw mynydd mwyaf gogleddol y Glyderau yn ogystal â mynydd i'r gogledd o Gapel Celyn.

Rwan, o gofio mai beddi cynnar oedd y cromlechi a'r carneddi a bod cysylltiad cryf rhwng y ci yng nghrefydd y Celtiaid a marwolaeth a'r Byd Arall (Annwn), ai dyna sy'n egluro'r elfen ***filiast*** yn enwau'r cromlechi a'r carneddi tybed? Wedi'r cwbwl byd tanddaearol oedd Annwn ac yn ôl y chwedlau gallai Cŵn Annwn fynd o un byd i'r llall. Ond mae'n rhaid cofio y cysylltid y ci â'r gallu i wella hefyd a hynny oherwydd ei fod, trwy lyfu'i friwiau, yn gallu ei wella ei hun.

Tyfodd llawer o chwedlau ac ofergoelion o gwmpas ffynhonnau, cromlechi a charneddi ar ôl iddyn nhw golli eu defnydd gwreiddiol, filoedd o flynyddoedd yn ôl. Ond erbyn heddiw mae llawer o'r chwedlau a'n llên gwerin hefyd wedi mynd yn angof, mwya'n colled, gan adael dim ar ôl ond yr enwau noeth a ninna'n crafu'n pennau wrth drio cael hyd i'w hystyron. Ond gwae ni os collwn ni'r enwau!

Gyda llaw, ystyr yr elfen 'mil' yn ***miliast*** ydi anifail, a dyna egluro'r enw ***milfeddyg*** (mil + meddyg) ar yr un gwynt.


CABLE GUYS
Yn troi Cymru'n ddigidol
Freesat Digidol • Freeview Digidol
Uwchraddio Erials • Trwsio Erials
Dosbarthiad UHF
Gosodiadau mewn carafán
Amcan Bris am ddim
Prisiau cystadleuol
Am fwy o fanylion, ffoniwch Glyn ar:
(01766) 512 107 (07789) 716 332
28 Stryd Fawr, Tremadog, Gwynedd LL49 9RD

Bennett Smith – cyfreithwyr
Ydych chi'n wynebu ysgariad neu wahaniad?
Cysylltwch â Karen Bennett neu Adrian Altman am gyngor cyfreithiol yn ymwneud â phob math o broblemau cyfreithiol teuluol yn cynnwys taliadau terfynol, gorchmynion ad-drefnu eiddo, ysgariad a phlant.
Mae Bennett Smith yn barod i'ch helpu gyda'ch anghenion cyfreithiol.
Ffôn (01248) 679 000
Ebost: mail@bennettsmith.co.uk
www.bennettsmith.co.uk
Garth Bach, Nant y Garth, Felinheli, Gwynedd LL56 4QF
Awdurdodir a rheoleiddir gan yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr

SILS FFENESTRI
CARREG AELWYD
CERRIG BEDDI
LLORIAU
PATIO
A LLAWER MWY ...
Cysylltwch am fanylion
(01766) 810 659
(07810) 340 628
lldslate@btinternet.com

LLECHI LLD SLATE CYF
www.lldslate.com




DŴR A SEBON, John ac Alun, morthwyl a chryman, Chernobyl a Ben Fogle… Na, na, dydi'r pâr dwytha 'na ddim yn mynd efo'i gilydd. Ond y teitl dryslyd: *Inside Chernobyl with Ben Fogle* a'm denodd i wylio'r rhaglen. O gofio bod mis a hanner arall i fynd tan ben-blwydd y drychineb, roedd amseriad y darllediad yn od hefyd. Ai achub y blaen ar sianelau eraill oedd y bwriad? Os hynny, tybad fydd rhaglenni Dolig Sianel 5 yn cael eu darlledu ar noson Gei Ffôcs o hyn ymlaen?

Ta waeth, buan iawn y daeth rhywun i arfer efo Ben yn gorbwysleisio'i gytseiniaid caled yn y modd mwya clonnog posib tra'n ymdrybaeddu mewn ymbelydredd. Ar 26 Ebrill 1986, yn dilyn prawf diogelwch diffygiol, ffrwydrodd Adweithydd Rhif 4 Pwerdy Chernobyl yn yr hen Undeb Sofietaidd, gan ollwng 400 gwaith mwy o ymbelydredd i'r amgylchedd na'r bom a ollyngwyd ar Hiroshima. Hon, eglurodd Ben, oedd y ddamwain 'niwCC-liaa' mwyaf 'ToCC-SsiCC' erioed.

Dafliad carreg o'r pwerdy, saif Pripyat: dinas iwtilitaraidd newydd sbon a godwyd yn unswydd ar gyfer gweithwyr Chernobyl a'u teuluoedd. Drylliwyd yr afallon sosialaidd hon gyda diflaniad 48,000 o'r triogolion, ond mae'r holl adeiladau yno o hyd – yn sefyll yn fud mewn llonyddwch llwyd. Ar y sgrîn roedd rhyw gyfaredd iasol yn perthyn i'r jyngl concrid llythrennol hwn oedd yn cadarhanu'r ymdeimlad o 'fieri lle bu mawredd'.

Gwnaeth Ben a'i Geiger-cowntar swnllyd joban ddigon parchus o'n tywys o gwmpas y fflatiau, yr ysgolion a'r pwll nofio Olympaidd a gafodd eu gwacáu ar frys yng ngwanwyn '86. Fe'n cyflwynodd hefyd i'r swyddogion sy'n plismona'r ardal rhag bleiddiaid deudroed yr Wcráin. Fyddwch chi ddim yn synnu o glywed bod rhyfygwyr y rhyngrwyd yn torri i mewn i'r ddinas gefn nos i ffilmio'u hunain yn hongian ben i lawr oddi ar yr olwyn ffair honno sy'n prysur rydu yn y gwynt. Mae eraill yn mentro yno i ysbeilio'r ysbyty. Y danteithion mwyaf chwenychadwy, yn ôl pob sôn, yw dillad ac offer y diffoddwyr tân fu'n ymdoddi ar ei wardiau slawer dydd. Be mae'r bobl 'ma'n ei wneud efo'r helmedau a'r welingtons ymbelydrol? Eu harddangos ar y seidbord gartref i dywynnu'n llachar ar Mam, Nain ac Igor Bach tra'u bod nhw'n gwylio rhaglenni fel *Inside Chernobyl with Ben Fogle* ar y bocs?

Uchafbwynt y rhaglen oedd ymweliad Ben â chartref tlawd yr unig berson sy'n dal i fyw oddi mewn i'r ardal waharddedig, sef babwshca bach *kamikaze* o'r enw Valentina. Roedd yr hen wreigan weddw wedi mynd i drafferth mawr i dafellu tomatos a gercynau ar gyfer ei gwestai arbennig, a chafodd Ben ei annog i'w golchi i lawr efo fodca o botel oedd ag arwydd trionglog mawr, melyn ar ei blaen – y math o arwydd y byddwn ni'n ei weld ar ochr is-orsaf drydan yn y wlad yma! I bwdin cawsom flas ar Dana, gast bach drom Valentina, yn udo i'r entrychion i gyfeiliant acordion wylofus ei pherchennog. Bythgofiadwy!

Roedd digon o ddeunydd yma ar gyfer cyfres fer, yn hytrach nag un rhaglen awr a hanner. Ond dim ond am hyn-a-hyn o amser y cawsai Ben aros yn ardal Chernobyl. Gobeithio'n wir ei fod o wedi molchi'n iawn cyn mynd am adra.

Wedi laru ar gerdded rownd y bloc?
Ehangwch eich gorwelion
Beics Berno
Dewis eang o feics braf o'r Iseldiroedd
Cyfforddus iawn - Ansawdd ardderchog
Beics Berno - beics braf
Trefaes Bach, Sarn. 730542 / 07929 769033
beicsberno@btinternet.com www.facebook.com/beicsberno
Yn falch o gynnig blas o ddiwylliant beicio ewropeaidd

I'w osod
Tŷ dwy lofft
Cricieth
Manylion:
(07825) 006 448

Gwasanaeth Cyfrifon Caren
• Cyfrifon cyfrifiadurol (Sage)
• Treth ar Werth
• Ffigurau misol
• Cyflogau
Telerau rhesymol • Gwasanaeth Cyfeillgar
Cymwysedig yn system Gyfrifiadurol Sage
Polisi Indemnity
Caren Thomas AICB (Comp)
Tel/Ffacs: (01766) 810 096
Symudol: (07881) 922 937
carensbookkeeping@btinternet.com
Aelod Cyswllt Cyfrifiadurol
Rhif Practis 3040

Cofiwch bod modd derbyn copi o'r Ffynnon yn fisol dros y we hefyd.
Bydd yn cael ei yrru atoch fel dogfen PDF ar ebost.
Bargen am £6 y flwyddyn.
Am fwy o wybodaeth cysylltwch gyda Margaret Griffith
01766 810513
m.griffith901@btinternet.com

# 'The Price is Right'

FE YMUNODD Robert â chwmni fy nheulu – William George a'i Fab – ym Medi 1954 fel clerc erthygledig (fel y gelwid cyfreithwyr dan hyfforddiant bryd hynny) i fy nhaid.



***O'r chwith: Robert Price, W. R. P. George, Philip George***

Roedd ei gysylltiad â'm teulu fodd bynnag wedi cychwyn rai blynyddoedd cyn hynny ac mae'n debyg bod Robert ymhlith yr olaf o frodorion Cricieth oedd nid yn unig yn cofio Lloyd George ond hefyd wedi ei gyfarfod. Byddai'n ymuno â'i fodryb pan âi hi i Fryn Awelon i roi ffisiotherapi i Lloyd George. Ei daid, fel plismon Cricieth, oedd yn gyfrifol am ddiogelwch Lloyd George ynghyd ag ymwelwyr i Fryn Awelon (ar un o ymweliadau Churchill cafodd Robert sigâr ganddo'n anrheg), ac roedd Robert yn un o'r plant ar ben y coed yn y llun eiconig o angladd Lloyd George ar glawr *Time Magazin*e.

Dywedai Robert (o bosibl yn fwy o ddifrif na chwarae) na ddysgodd fawr o gyfraith gan fy nhaid gan iddo dreulio'r rhan helaethaf o'r amser yn ei gynorthwyo i ysgrifennu ei gofiant *My Brother and I*. Ond wrth ddarllen llythyrau, nodiadau a dyddiaduron Lloyd George yn uchel i fy nhaid fe ddysgodd Robert am rinweddau a doniau oedd yr un mor bwysig â gwybodaeth o'r gyfraith os am lwyddo fel cyfreithiwr, a daeth rheini'n rhan annatod o'i gymeriad: boneddigeiddrwydd, cwrteisi, hynawsedd, amynedd, y gallu i wrando a'r gallu i gymathu ffeithiau a gwybodaeth, pwysigrwydd paratoi a thrylwyredd, grym cyfathrebu'n glir ac effeithiol, a gwerth hiwmor a dywediad bachog.

Oherwydd y nodweddion uchod roedd pawb yn gyfforddus yng nghwmni Robert (hyd yn oed ei wrthwynebwyr mewn achos) a galw mawr am ei wasanaeth yn arbennig ar gyfer gwaith llys. Fe'i hystyrid yn un o eiriolwyr gorau'i gyfnod ac yn hyn o beth roedd ei hiwmor yn arf cyn bwysiced â'i huodledd. Fe'i defnyddiai i helpu tystion i ymlacio, i dynnu'r tyndra allan o sefyllfa, ac wrth gwrs i geisio plesio'r ynadon. Fel Lloyd George o'i flaen roedd o'n ymwybodol bod y llys, trwy'r adroddiadau yn y wasg leol, yn llwyfan i gael cyhoeddusrwydd fel cyfreithiwr, a bu'r pennawd 'The Price is Right' (ar ôl sioe deledu boblogaidd ar y pryd) mewn un papur newydd wedi iddo ennill achos yn destun cryn ddifyrrwch iddo!

Nodwedd arall o'i gymeriad oedd ei ddireidi a'i hoffter o dynnu coes a doedd neb yn ddiogel rhag hynny hyd yn oed yn y swyddfa. Ymhlith y goreuon mae'r hanes amdano'n twyllo Robyn Lewis i dderbyn galwad ffôn trwy smalio bod yn Gwynfor Evans, a'r un amdano'n cael fy nhad ar Ddydd Ffŵl Ebrill un flwyddyn i ffonio rhyw rif (Sw Caer, heb yn wybod i Nhad) a gofyn am Mr C. Lyon.

Rhwng Lloyd George yn sefydlu'r busnes yn 1885 ac ymddeoliad Robert yn 2007, pump o bartneriaid a fu yn y busnes sef Lloyd George, fy nhaid, fy nhad, Robert a finnau, ac er nad oedd Robert yn perthyn i'r teulu trwy waed mi fu i mi yn aelod anrhydeddus. Yncl Robert oedd o i mi pan oeddwn i'n blentyn a phan ymunais i â'r cwmni ym Medi 1980 fe ddaeth nid yn unig yn gydweithiwr ond yn gyfaill yn ogystal. Dwi'n ddyledus iddo am ei ddoethineb, ei arweiniad a'i gefnogaeth ac yn ddiolchgar fy mod wedi cael y fraint o fwynhau cyfeillgarwch person arbennig iawn.

***Philip George***

MENTER Y PLU
LLANYSTUMDWY

PLESER o'r mwyaf ydi rhannu'r newyddion da mai Menter y Plu ydi perchnogion newydd Capel Bach, o'r diwedd. Cwblhawyd y pryniant ar 2 Mawrth a braf oedd cael rhannu'r newyddion yma hefo'n cyfranddalwyr yn ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar 3 Mawrth. Diolch o galon i bob un o'n cyfranddalwyr presennol a newydd am gefnogi'r ymgyrch i brynu Capel Bach. Edrychwn ymlaen at rannu mwy o luniau a gwybodaeth am y Capel maes o law.

Oherwydd effaith y pandemig ar bob agwedd o'n cymdeithas, ni fu modd cynnal Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol tan rŵan. Croesawyd Gareth Jones o gwmni Dunn & Ellis atom i gyflwyno'r cyfrifon ac mae'n dda cael adrodd bod elw wedi'i gynhyrchu yn y ddwy flynedd gyntaf, er nad ydi Menter y Plu wedi cael yr un flwyddyn lawn arferol o redeg tafarn eto. Daw hynny'n o fuan, gobeithio!

Nodwch ddyddiad y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol nesaf yn eich dyddiaduron, sef 2 Mawrth 2022.

Ymunwch â ni ar gyfer cwis misol Y Plu nos Fercher, 31 Mawrth dan arweiniad y cwisfeistr, Aled Evans. Cysylltwch â'r Fenter i dderbyn y manylion ymuno. Ymlaen!

***Criw'r Fenter***

CONTRACTWYR TRYDANOL
**Hughes a Williams**
**Domestig – Masnachol – Diwydiannol**
**Galwadau Brys – Profi tai a nwyddau**
Dafydd Hughes **(07813) 008 479**
Arwel Williams **(07789) 300 525**
Iocws, Pwllheli LL53 5TY
**(01758) 612 621 dafydd@iocws.com**
*Amcanbrisio am ddim*




MAE RHEOLAU Su Doku yn hawdd. Mae angen rhif rhwng 1 a 9 ym mhob bwlch gwag. Dylai pob rhes ar draws y grid gynnwys pob un o'r rhifau rhwng 1 a 9. Dylai pob colofn i lawr y grid gynnwys pob un o'r rhifau 1 i 9. Dylai pob sgwâr 3 x 3 hefyd gynnwys pob un o'r rhifau o 1 i 9. Does ond un ateb cywir.

## Ateb Chwefror

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 9 | 5 | 8 | 7 | 4 | 2 | 3 | 6 | 1 |
| 6 | 7 | 2 | 3 | 9 | 1 | 4 | 5 | 8 |
| 3 | 1 | 4 | 6 | 5 | 8 | 7 | 2 | 9 |
| 7 | 4 | 3 | 2 | 6 | 9 | 1 | 8 | 5 |
| 1 | 2 | 6 | 5 | 8 | 4 | 9 | 3 | 7 |
| 5 | 8 | 9 | 1 | 7 | 3 | 2 | 4 | 6 |
| 8 | 9 | 5 | 4 | 2 | 7 | 6 | 1 | 3 |
| 4 | 3 | 7 | 8 | 1 | 6 | 5 | 9 | 2 |
| 2 | 6 | 1 | 9 | 3 | 5 | 8 | 7 | 4 |

## Anodd

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | 7 | | 2 | | 6 |
| | | | | | 6 | | 1 | 8 |
| | | | | | 9 | | | 4 |
| 6 | | | | 5 | 8 | | | 2 |
| | | 7 | | | | 1 | | |
| 4 | | | 6 | 1 | | | | 3 |
| 1 | | | 4 | | | | | |
| 2 | 8 | | 1 | | | | | |
| 5 | | 3 | | 8 | | | | |

## MAE BYWYD GWYLLT GLASLYN WILDLIFE YN CHWILIO AM DDAU YMDDIRIEDOLWR NEWYDD I YMUNO Â'R BWRDD

Elusen cymunedol, amgylcheddol a bywyd gwyllt, ger Porthmadog ydy Bywyd Gwyllt Glaslyn Wildlife (BGGW). Mae'n sefydliad di-elw.
Mae gan Fwrdd Ymddiriedolwyr BGGW reolaeth annibynnol, a chyfrifoldeb cyfreithiol dros, llywodraeth, gweinyddiad a rheolaeth BGGW


Bob blwyddyn, mae BGGW yn gwahodd aelodau, a'r rhai sy'n barod i gofrestru fel aelodau, i sefyll fel ymddiriedolwyr ar y Bwrdd. Drwy gyfrannu eich sgiliau a'ch gwybodaeth, cewch effaith uniongyrchol ar effeithiolrwydd parhaus BGGW fel elusen, wrth diogelu'r gweilch ac ymgysylltu â'r cyhoedd, ysgolion a grwpiau addysgol i ddysgu mwy am y gweilch a'r bywyd gwyllt yn nyffryn Glaslyn.

Mae'r Bwrdd Ymddiriedolwyr angen ystod eang ac amrywiol o sgiliau. Eleni, byddai'r elusen yn croesawu'n arbennig ddatganiadau o ddiddordeb gan aelodau, a'r rhai sy'n barod i gofrestru fel aelodau, sydd yn ymddiddori mewn bywyd gwyllt a chadwraeth ac sydd â sgiliau, gwybodaeth neu brofiad o weithio neu wirfoddoli mewn un neu fwy o'r meysydd a ganlyn: rheoli cyllid, ymgysylltu â'r gymuned a phobl ifanc, profiad gwirfoddolwyr, marchnata a chyfathrebu, codi arian, llywodraeth elusennau, cyfraith cwmni, recriwtio aelodaeth, datblygu partneriaethau gyda sefydliadau bywyd gwyllt eraill, datblygu strategaeth a datblygiad busnes a sefydliadol.

Byddai'r Bwrdd yn croesawu'n arbennig ddiddordeb gan siaradwyr Cymraeg.
**Y dyddiad cau ar gyfer datganiadau o ddiddordeb yw 23ain Ebrill 2021.**
Am rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Cadeirydd, Gwenan Williams ar pantydwr@icloud.com.


# Ffotograffydd

Priodasau, portreadau ac ati


Eryl Jones, Gwalia, Chwilog
**(01766) 810 683**
**eryljones@outlook.com**
**Gweplyfr: Eryl Jones Ffotograffydd**

*Cysylltwch am fanylion ac esiamplau*

Trin Coed
TY'N LLWYN
Tree Services

- **Ffensio**
- **Gwasanaeth hollti symudol**
- **Galwad allan 24 awr mewn argyfwng**

Richard Hubbard, Ty'n Llwyn, Llannor, Pwllheli, Gwynedd LL53 5UG
**Ffôn: (01758) 612 608 • Symudol: (07807) 213 527**

**D. G. PRITCHARD**
Peintiwr ac Addurnwr
Prisiau cystadleuol

**Ffôn:** (01766) 514 218
(07501) 144 837

1 Stryd yr Eglwys
Porthmadog
Gwynedd
LL49 9HW





AGA
**Elis Williams**
- **Gwasanaethwr arbenigol:** AGA, Rayburn a boeleri olew
- **Gosod stof llosgi coed**
- **Gwaith plymio**

Cefn Crin, Llangybi, Pwllheli LL53 6SU
Ffôn: (07814) 056 330



# Tir Dewi

## – yma i helpu ffarmwrs




FE ŴYR PAWB sy'n ymwneud â'r byd amaeth yng nghanol gaeaf sut mae hi: y blinder yn llethol, y colledion yn aml, yr ysbryd yn isel a phopeth yn edrych yn ddu. 'Mor hwyr yn dyfod mae'r ha,' chwedl Dic Jones.

Ond yna mi ddaw'r gwanwyn. Mwy o waith ond gwaith gwahanol ac mi fydd pethau'n well fel arfer. Ond fyddan nhw? Yn anffodus, tydi hynny ddim yn wir bob amser yn y gymuned amaethyddol, ac er bod tynnu coes a sgyrsiau digon difyr i'w cael mewn mart a melin a garej mae hi'n ffaith bod canran uchel o ffermwyr yn ei chael hi'n anodd ymdopi o ddydd i ddydd. Gall y poen meddwl ddeillio o bob math o sefyllfaoedd.

Weithiau, pethau bach gweddol syml fel cadw cofnodion neu wynebu archwiliadau sy'n peri'r pryder. Dro arall gall problemau ariannol lethu rhywun. Mae poeni am heneiddio a dyfodol y fferm deuluol yn achos colli cwsg i lawer, ac o ystyried faint o ffermwyr sy'n gweithio oriau hir ar eu pen eu hunain mae unigrwydd hefyd yn broblem fawr. Ond mae help ar gael o lawer cyfeiriad. Un elusen sy'n helpu gweithwyr amaethyddol ydi Tir Dewi.

### Be ydi Tir Dewi?

Daeth Tir Dewi i fod ar ddamwain bron yn 2015 ond ers ei ffurfio mae'r galw am y gwasanaeth wedi bod yn aruthrol. Fe'i sefydlwyd gyntaf yn Sir Benfro – yn ardal Tyddewi – a hynny wedi i Esgob Tyddewi, yr Esgob Wyn, ddigwydd holi Mrs Eileen Davies, ffermwraig sydd hefyd yn ficer: 'Beth ydan ni'n ei wneud fel Eglwys i helpu'r gymuned amaethyddol?' Sylweddolodd hithau mai'r ateb mewn gwirionedd oedd 'Dim', ac felly aeth ati yn ddiymdroi i newid pethau.




Ar y cychwyn y cwbwl a wnaeth oedd argraffu ychydig daflenni gyda rhif ei ffon ei hun arnynt a'u rhannu yn y martiau ac o fewn y gymuned amaethyddol. Roedd yr ymateb yn syfrdanol, ac o hynny a chan ei bod yn gweithio yn ardal Tyddewi y ffurfiwyd yr elusen Tir Dewi.

Erbyn hyn cyflogir pum aelod o staff (dau llawn-amser a thri rhan-amser) sy'n cael eu helpu gan dros 60 o wirfoddolwyr ledled y wlad. Hyd yn ddiweddar, yn ardal Tyddewi y bu'r prysurdeb mwyaf ond fel y dywedodd Mrs Davies roedd Dewi'n Sant i Gymru gyfan, a'i nod hi oedd ehangu'r cysylltiadau dros Gymru gyfan.



*Eileen Davies*

Ers mis Awst y llynedd sefydlwyd cangen yn y Gogledd a Chadeirydd Pwyllgor y Gogledd ydi Mrs Susan Jones, sy'n fwy adnabyddus i ni yma yn Eifionydd fel 'dynas Mona Tractors' gan mai hi a'r teulu sy'n berchen ar y busnes llewyrchus hwnnw ym Mharc Amaeth Llanystumdwy.

Bu'r Ffynnon yn holi Mrs Jones ynglyn a'i chysylltiau hi â'r elusen. Dyma oedd ganddi i'w ddweud:

'Yn gyntaf ga i ddiolch am eich diddordeb ac am y cyfle i hyrwyddo Tir Dewi. Rydan ni wedi bod yn gweithio yn y Gogledd ers rhai misoedd erbyn hyn – yn gosod y seiliau trwy gyflogi aelod staff rhan-amser i gydlynu, creu Bwrdd Rheoli a chasglu gwirfoddolwyr. Erbyn hyn mae'r gwirfoddolwyr wedi derbyn y hyfforddiant priodol ac mae pob dim yn ei le i ateb galwadau.

'Cychwynnodd fy siwrna i efo Tir Dewi yn Sioe Fawr 2018 pan gefais sgwrs â'r Prif Weithredwr Gareth Davies oedd yn awyddus i ehangu'r ddarpariaeth oedd ar gael yn y De. Gofynnodd a fyddai gennyf ddiddordeb mewn helpu. Mae'n rhaid i mi fod yn onest, wyddwn i fawr ddim am yr elusen arbennig yma bryd hynny a doedd gen i ddim syniad beth oedd yn wahanol rhwng hon a'r elusennau eraill y gwyddwn amdanynt.

Felly, fy ymateb cyntaf yn breifat oedd 'Oes angen un arall?' Eglurodd Gareth fod Tir Dewi yn cydweithio gyda llawer o'r elusennau eraill gyda phob un yn cynnig ei

arbenigedd ei hun. Os bydd ffarmwr yn cysylltu efo Tir Dewi dros y ffôn, yna byddwn yn medru ei gyfeirio at yr elusen neu'r asiantaeth sy'n mynd i ateb ei ofynion unigryw o. Ond nid cyfeirio yn unig a wneir. Gall gwirfoddolwyr Tir Dewi fynd efo'r unigolyn at yr asiantaethau eraill ac aros wrth ei ochor tra bo angen.

'Codi arian oedd fy unig gyfraniad i wedi bod at elusennau yn y gorffennol a toeddwn i ddim wedi cymryd rhan ymarferol gydag unrhyw elusen ar wahân i Gymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru (CAFC). I ddefnyddio gair y flwyddyn, fy 'swigan' i oedd fy ngwaith yn rhedeg Mona Tractors efo John fy ngŵr a bod yn aelod o Fwrdd Cyfarwyddwyr CAFC lle dwi hefyd yn Gadeirydd Pwyllgor Marchnata a Chysylltiadau y Gymdeithas. Yn y cyfnod cyn-Cofid doedd o ddim yn anarferol i mi fod yn teithio i Lanelwedd bedair gwaith y mis. Rhaid i mi gyfaddef fy mod yn colli'r siwrna a chael gweld fy 'nheulu Royal Welsh'. Fedra i ddim credu mod i wedi newid fy nghar fis Mawrth y llynedd a tydio rioed wedi bod yn Llanelwedd!

'Wedyn, yn 2019, mi gefais y fraint a'r anrhydedd o ddod yn Uchel Siryf Gwynedd yn dilyn eich hogan chi, Kit Ellis, Llwyndyrus. Roedd hynny'n brofiad unigryw iawn a bûm yn troi mewn cylchoedd gwahanol iawn i fy nghylchoedd amaethyddol. Rhan o waith yr Uchel Siryf yw cefnogi gwaith gwirfoddol a bu gweld faint o bobol sy'n gwneud gwaith da yn gwbwl ddi-dâl yn andros o agoriad llygad i mi.Y peth gwaethaf oedd sylweddoli bod 'na gymaint o ofyn am bobol i wneud gwaith fel hyn yn ein cymdeithas.



***Susan Jones***

'Felly, yn dilyn y sgwrs gychwynnol efo Gareth Davies, mi aeth o i chwilio am gyllid i ehangu'r gwasanaeth ac roeddwn inna'n barod i fod yn rhan o'r fenter. Fel merch ffarm ac un oedd wedi gweithio yn y diwydiant am dros ddeg mlynedd ar hugain roedd gen i ddiddordeb mawr mewn gwasanaeth oedd yn mynd i fod o help i ffermwyr. Roedd hynny wrth gwrs yn 2018 pan oedd galw mawr am gefnogaeth i'r diwydiant.

'Erbyn hyn mae hi'n wahanol fyd. Rydan ni yng nghanol pandemig byd-eang, Brexit a gorfod byw efo'r penderfyniadau mae'r Llywodraeth yn ei wneud sy'n mynd i fod yn slap arall i ffermwyr. Ar ôl sicrhau'r cyllid, y bwriad oedd lansio Tir Dewi yn y Gogledd yn Sioe Môn ond difethwyd y cyfan gan y pandemig. Mae'r gwaith fodd bynnag yn parhau, a gobeithiwn y bydd mwy a mwy o ffermwyr yn dod i wybod amdanom ac yn defnyddio ein hadnoddau wrth iddynt weld ein cardiau a'n posteri ar hyd ac ar led.'

***S. J.***

*Hyd yma mae Tir Dewi wedi derbyn cefnogaeth gan amryw o fusnesau lleol yma yn Eifionydd – pob un yn fodlon iawn arddangos poster a gosod y cardiau cysylltu ar eu cownteri. Efallai i chi eu gweld yn Wynnstay, Rhosfawr; ym Melin Llecheiddior; yn y Gilfach yn Chwilog, ac yn syrjeri Milfeddygon Deufor. Codwch gerdyn a'i roi yn eich poced. Mi allai fod o fudd rywdro os cyfyd problem.*

*A chofiwch, nid delio â gorbryder a phoen meddwl yn unig mae Tir Dewi – maent ar gael i'ch cyfeirio at asiantaethau eraill a allai eich helpu, neu dim ond i wrando a thrafod. Cewch ffonio unwaith neu ganwaith. Bydd popeth yn hollol gyfrinachol ac mi gewch glust bob amser.*

**Ac i gloi, dyma ichi ffaith neu ddwy: Roedd 70% o'r ffermwyr gyfaddefodd eu bod yn pryderu yn cyfaddef hefyd iddynt fod yn anfodlon gofyn am help.**

**Unigrwydd ydi un o'r pethau sy'n poeni llawer.**




***Mae Manon yn Felin Llecheiddior yn falch o hyrwyddo Tir Dewi 'Mae'n bwysig siarad,' meddai.***




***Bydd Arwel, Gilfach yn arddangos y poster ac yn rhannu'r cardiau pan fydd ei floc-swyddfa newydd wedi ei gwblhau.***




***John Hughes a Fiona Gordon o Gwmni Wynnstay yn cefnogi Tir Dewi***




## Angela Roberts



*Angela ar ben yr Wyddfa*

HOGAN o Lanystumdwy ydi Angela Roberts – Angela Wyn i bobl Llan. Cwydrodd yn o bell o'i phentref er mwyn dilyn ei breuddwydion ond mae hi bellach wedi ailgartrefu yn y Llan.

Yn ysgolion Llanystumdwy ac Eifionydd y derbyniodd ei haddysg gynnar wrth gwrs, cyn mynd ymlaen i wneud cwrs a chymhwyso fel asiant teithio yng Ngholeg Menai. Treuliodd gyfnodau'n gweithio i sawl cwmni a sefydliad lleol, a phan oedd hi'n gweithio fel derbynnydd i gwmni Laud Meredith ym Mhorthmadog dechreuodd astudio i fod yn Dechnegydd Cyfrifo.

Wedi iddi gymhwyso daeth cyfle iddi ddilyn ei breuddwyd fawr ac ymgeisiodd am swydd fel Gweinyddwraig Timau Merched Cymdeithas Pêl-droed Cymru. Bu Angela yn dilyn y tîm o wlad i wlad ac o un cae pêl-droed i'r llall yn cyflawni ei swydd ddelfrydol, nes i swydd ddelfrydol arall ddod i'r fei! Beth oedd honno, dybed? Dim llai na swydd Rheolwr Cyffredinol tîm merched Clwb Pêl-droed Lerpwl!

Braint oedd y swydd hon yn ôl Angela, er mai Aston Villa ydi ei thîm! Swydd amrywiol, yn gyfrifol am bopeth o ddelio efo'r FA ac asiantau i drefnu chwaraewyr, prynu bananas i fynd ar y bys, a nôl y cit o'r golchdy. Mae Angela'n dal i'w phinsho'i hun ei bod wedi bod yn gwneud y swydd hon, a bu yno am dair blynedd yn gweithio oriau hir ac yn cael profiadau anhygoel, a llwyddo i adael y swydd ar binacl wedi i'r tim ennill y gynghrair.

Dychwelodd Angela adref i Lanystumdwy tua chwe blynedd yn ôl a threuliodd bump o'r rheiny yn gweithio i gwmni cyfrifwyr Dunn & Ellis ym Mhorthmadog. Mae'n ddiolchgar iawn i'r cwmni am y gefnogaeth wych a gafodd ac yn arbennig wrth iddi gymhwyso'n aelod o'r Association of Certified Chartered Accountants (ACCA). Serch hynny, daeth yn amser i symud ymlaen ac ers chwe mis mae'n gweithio fel Rheolydd Ariannol (*Financial Controller*) i gwmni Aspire Park and Leisure Homes ym Mhorthmadog. Adeiladu *lodges* moethus ydi gwaith y cwmni sy'n cyflogi tua 70 o bobl leol. Mae'r her newydd wrth fodd ei chalon!

Wedi teithio'n bell ac yna dychwelyd adref i'w milltir sgwâr, does dim dwywaith nad ydi'r gymuned leol yn bwysig i Angela. Yn wir, mae'n dweud mai'r rheswm y cafodd ei swydd gyntaf efo Cymdeithas Bêl-droed Cymru oedd ei bod wedi cyflawni gwaith gwirfoddol gyda Chlwb Pêl-droed Porthmadog, sef gwaith gyda'r Academi Ieuenctid a gwaith gweinyddol fel Swyddog Trwyddedu, swydd y mae'n dal i'w chyflawni i'r Clwb. Yndi, mae gwaith gwirfoddol wedi agor nifer fawr o ddrysau i Angela ac mae'n cyfrannu at fywyd pentref Llanystumdwy hefyd fel aelod o Bwyllgor y Neuadd.

Cafodd ei thrwytho yng ngwerth ysbryd cymunedol yn ei hieuenctid fel aelod o Ysgol Sul Capel Moreia a'r Aelwyd, dan arweiniad Anti Marian (Ty'n Giat), ac yn ddifyr iawn mae Angela'n teimlo bod yr ysbryd cymunedol yma wedi'i adfywio ym mhentref Llanystumdwy yn ystod y pandemig. Mae'n dweud bod y teimlad cymunedol a ddaeth i'r fei yn y cyfnod hwn – y gofal a ddangosodd y trigolion am ei gilydd – yn ei hatgoffa o amseroedd a fu, a'i bod yn teimlo bod y gymuned yn dal yn un gref.

Difyr iawn oedd clywed dy hanes, Angela, a dymuniadau gorau i chdi!

***Naomi Jones***

Gwasanaeth **SPICK 'N' SPAN**

Amcan bris rhad ac am ddim, dim ond galwad ffôn i ffwrdd:

- Glanhau carpedi a chlustogwaith
- Glanhau swyddfeydd
- Clirio tai a glanhau
- Gofal waith adeiladau
- Torri gwellt a thrimio gwrychoedd
- Glanhau ffenestri hyd at 60 troedfedd gan gynnwys heulfannau
- Glanhau carafannau, ceir a chychod (tu mewn a thu allan)
- Eich holl anghenion glanhau
- Glanhau tai haf
- Ymgymryd â gwaith contract
- Cynnal tiroedd
- Ymgymryd a gwaith 'Pressure Washer'





Mr A J Eaglen, Uned 10, Glan y Don, Pwllheli, Gwynedd LL53 5YT
**(01758) 614 200 neu (07881) 922 938**
**www.spicknspan-services.com**
@ spicknspan_services@yahoo.co.uk

# Cysur rhwng cloriau



***Miriam Williams***

*HELO ddarllenwyr Y Ffynnon. Ar gais y Golygydd mi ydw i am fy nghyflwyno fy hun i chi ar y cychwyn fel hyn. Miriam dw i, o Drefor yn wreiddiol ond bellach wedi mudo draw i Eifionydd ac yn byw yma yn Llanystumdwy. Fy swydd o ddydd i ddydd (cyn Cofid) ydi Rheolwr Safle Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd. Teitl crand, ond peidiwch â phoeni nid y fi ydi'r pen bandit – mae 'na rywun llawer callach na fi yn y swydd honno diolch i'r drefn. Y dyddiau yma dwi ar secondiad i swydd Rheolwr Cyfathrebu Llenyddiaeth Cymru, sef y cwmni cenedlaethol sy'n gofalu am ddatblygu llenyddiaeth ac sydd hefyd yn rhedeg Tŷ Newydd. Yn fy amser sbâr mi ddewch o hyd i mi'r naill ochr neu'r llall i'r bar yn Y Plu, neu â'm trwyn mewn llyfr.*

SÔN AM LYFRAU, dyna un o'r ychydig bethau sydd wedi dod â chysur rheolaidd i mi dros y deuddeng mis diwethaf a dwi'n siŵr fod nifer ohonoch yn cytuno gyda'r gosodiad hwn. Pan ddaeth y newydd ein bod ni i gyd am orfod aros adref, bron flwyddyn union yn ôl erbyn hyn, mi o'n i ar Ynys Enlli. Y peth cyntaf wnes i ar ôl i'r cwch lanio ym Mhorth Meudwy oedd archebu tomen o lyfrau o'r siop lyfrau leol. A dweud y gwir yn onest, mi o'n i'n edrych ymlaen at ddarllen y pentyrrau o lyfrau oedd wedi bod yn aros eu tro yn amyneddgar ar fy silff lyfrau dros y cyfnod clo amhendant, rŵan nad oedd gen i ddewis ond aros adref.

Dros y misoedd diwethaf dwi wedi mwynhau trawsdoriad o ffurfiau gwahanol: bydoedd dyrys *His Dark Materials* a *The Book of Dust* (Philip Pullman); *The Mirror and the Light*, y diweddaraf yn nhrioleg hanesyddol fawreddog Hillary Mantel; hanes arbennig Rhiw Goch – *On The Red Hill* – gan yr awdur o Fachynlleth Mike Parker; y cerddi rhagorol sydd yn ymddangos ym mlodeugerdd bwysig a hir ddisgwyliedig Y Stamp, *Dweud y Drefn pan nad oes Trefn*; llyfrau Wil Parsal (trwy law Dic Gwindy) sydd wedi bod yn sail i sawl sgwrs ffôn ddifyr gyda fy nain; *Twll Bach yn y Niwl*, y nofel milenial gyntaf yn y Gymraeg gan Llio Maddocks; *Tu Hwnt i'r Awyr*, nofel afaelgar Megan Hunter; ac yn ddiweddar wedi cael cysur o'r mwyaf wrth ddarllen *Gwirionedd*, Elinor Wyn Reynolds.

Nid llyfrau yn unig sydd wedi bod yn gysur wrth gwrs ond y darllen digidol hefyd, boed yn bapur bro dros ebost, yn gylchlythyr o fyfyrdodau gan drigolion yr ardal, yn gyfnodolion ar-lein neu'n *zines* amrywiol – mi ydan ni'n eithriadol o lwcus o gael tomen o ddeunydd darllen yn y Gymraeg. Er i gylchgrawn Y Stamp gyhoeddi'n ddiweddar mai'r rhifyn diweddaraf fyddai'r un olaf am y tro, braf yw gweld gwaddol holl waith caled y golygyddion yn parhau i ysbrydoli cyweithiau creadigol. Bydd cyfraniad ariannol o weddillion y cylchgrawn yn trosglwyddo at griw *Patriarchaeth*, i gynhyrchu *zine* newydd. Mae rhagor o ddarllen difyr ar droed, yn sicr.

Beth bynnag fydd o'n blaenau dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf, mi fyddwn ni gyd yn siŵr o ganfod hafan a chysur rhwng dau glawr.

***Miriam Williams***


DIONI™

Cysylltwch â Dioni i siarad am eich bwthyn gwylia
Gwion Llwyd 01341 247 200 gwion@dioni.co.uk
BUSNES LLEOL...CWSMERIAID BYD EANG

**H. E. Hughes & Co**
Contractwyr Amaethyddol
Bron Eifion Farm, Cricieth
**Ffôn tŷ: (01766) 522 189 • Symudol: (07974) 700 804**
Rhif TAW: 862 2585 12
**Belio a lapio, Torri, chwalu a hel silwair**
**Torri gwrychoedd**
**Chwalu slyri gydag 'umbilical chord' ar wyneb y tir neu injectio**





**R. D. Williams Cyf**
Brocer Yswiriant
**4 Thomas Buildings**
**Lôn Dywod, Pwllheli**
**LL53 5HH**
**Ffôn: (01758) 612 469**
**Ebost: rd.williams@btconnect.com**
Am anghenion yswiriant o bob math, yn cynnwys moduron, tai neu fusnes, cysylltwch â ni i gael prisiau neu gyngor personol a lleol
*Awdurdodir a rheoleiddir gan Awdurdod Gwasanaethau Ariannol*

## Dyffryn Madog

FEL y gwelsoch ar y dudalen flaen cynhaliodd Ffermwyr Ifanc Eryri Eisteddfod rithiol ddydd Sadwrn, 27 Chwefror, ac rydym yn falch iawn bod Angharad Ellis o Glwb Dyffryn Madog wedi ennill y goron gyda chymaint o ganmoliaeth. Hoffem fel clwb ei llongyfarch ar ei llwyddiant.

Llongyfarchiadau hefyd i Meinir Owen o Glwb Llangybi ar ennill y gadair ac ar ddod yn ail yng nghystadleuaeth y goron, ac i Glwb Llangybi ar ennill yr Eisteddfod unwaith yn rhagor.

## Llangybi

HELO, gobeithio i chi fwynhau'r haf… Calan Gaeaf hapus i chi… Nadolig Llawen… Blwyddyn Newydd Dda… Dydd Gwŷl Dewi hapus i chi!

Fel dach chi'n gweld, dwi wedi bod reit ddiog yn ddiweddar – diog iawn i ddeud y gwir. Ond roedd hynny'n syml iawn gan nad oedd gen i ddim byd i'w ddeud na'i adrodd, gan bod y clwb a'r holl nosweithiau wedi pallu.

Mae'n flwyddyn bellach ers i ni gael gweld ein gilydd yng Nghapel Pencae. Ond dros yr wythnosau diwethaf rydym wedi bod wrthi'n cystadlu yn Eisteddfod Rithiol CFfI Eryri, a do, mi sicrhawyd buddugoliaeth i Langybi – mae'r darian yn ddiogel am flwyddyn arall.

Hoffwn ddiolch o galon i Mererid Llecheiddior am sgriptio a chyfarwyddo mor raenus, i Gronw Sgubor Fawr am forol am yr ensemble lleisiol, ac i Deio a'i ffrind yng Nghaerdydd am osod y triawd doniol, 'Fel 'da chi'n gweld dydw i a thechnoleg ddim yn cyd-weld!' Heb eu cymorth cyson nhw fyddai'r clwb ddim wedi llwyddo.

Hoffwn hefyd ddiolch i griw gweithgar y mudiad am gydlynu'r steddfod ac am lwyddo i leddfu mymryn ar ein hiraeth.

Cyn rhannu'r canlyniadau hefo chi hoffwn, ar ran y clwb, longyfarch Meinir Owen, Bryn Mawr ar ei champ aruthrol yn ennill y brif gystadleuaeth farddoni yn y steddfod, ac am ddod yn ail yn y brif gystadleuaeth ryddiaith. 'Dan ni'n gwerthfawrogi ei chymorth a'i brwdfrydedd yn arw. Bellach yn Is-gadeirydd y Sir, dwi'n siwr ei bod yr un mor weithgar yno hefyd.

Felly, y canlyniadau Llwyfan (rhithiol):

Ensemble lleisiol – 1af; Triawd doniol – 1af; Cyflwyniad Theatrig – 1af; Cân gyfoes – 1af Gronw Sgubor Fawr; Canu emyn – 1af Catrin Parry, 3ydd Lowri Glyn; Fideo Cerddoriaeth – 2il Deio Owen; Llefaru 27 ac Iau – 3ydd Deio a Meinir; Unawd 27 ac Iau – 1af Catrin Parry; Stori a Meim – 1af Anna a Cynwal; Llefaru 19 ac Iau – 3ydd Greta Gwilym.

A dyma'r canlyniadau Gwaith Cartref:

Cyfres o bostiau Instagram – 1af Elan Llwyd; Cwis y mudiad – 1af Greta Gwilym; Ffotograffiaeth – 2il Deio Owen, 3ydd Meinir; Limrig – 2il Siwan Llecheiddior.

Dyna sydd wedi bod yn ein cadw'n brysur yn ddiweddar. Fe fyddwn yn rhannu clipiau o'r perfformiadau ar dudalen Facebook y clwb yn fuan.

Mae criw o'r clwb hefyd wrthi'n paratoi ar gyfer y gystadleuaeth siarad cyhoeddus rithiol ymhen mis. Mae'n hynod o braf gweld digwyddiadau rhithiol yn cymryd lle felma! Lle fysan ni heb y we, dwch?

Dwi wir yn gobeithio eich bod yn cadw'n ddiogel yng nghanol miri'r aflwydd yma, a'ch bod fel ninnau yma yn dyheu am y cyfnod pan gawn ni ailgyfarfod yn y cnawd.

Dwi'n siwr eich bod hefyd wedi laru clywed 'Daw eto haul ar fryn' rownd-y-rîl, felly 'na'i orffen 'fo jest 'Hwyl fawr' syml. Cadwch yn saff.


**Caron Jones**
Plymio a Gwresogi
**Gwasanaethau, Gosod ac Atgyweirio Nwy – Olew – LPG**
**Ffôn: (01766) 771 017**
**Symudol: (07731) 148 867**
Pen Draw, Minffordd,
Penrhyndeudraeth LL48 6EH
**caron89@btinternet.com**





Ateb y pos diwethaf oedd:
**GWARTHEG**

Dyma bos rhifau y tro yma.

1. P'run oedd blwyddyn y tair sbectol?
2. Tynnwch o'r rhif flwyddyn y tair caib.
3. Faint o feibion Sebedeus sydd â sôn amdanynt yn y Beibl? Adiwch y rhif yma at y cyfanswm.
4. 'Cyfaill neu ddau a'm cofiant,
   Prin ddau lle bu gynnau ...'
   Faint? Tynnwch y rhif yma allan o'r cyfanswm.
5. Wedyn tynnwch ddwsin allan o'r cyfanswm, ac ar ôl hynny:
6. Ychwanegwch rif y flwyddyn llynedd.

Beth yw'r ateb? Pob hwyl!

# CORNEL Y PLANT

### Wyau Trwm

Mae'r Gwanwyn yma! Tymor yr adar bach yn canu, yr ŵyn yn prancio, ac wrth gwrs... yn fuan... wyau Pasg! Mae pedair cwningen Basg wedi bod wrthi'n brysur yn cario wyau o gwmpas y fro – mae eu basgedi'n llawn a'r wyau'n drwm. Wyau pa ddwy gwningen sy'n pwyso yn union yr un faint?

A.



(12 x 5 – 3) g

B.



(11 x 4 + 12) g

C.



(9 x 6 + 4) g

CH.



(11 x 9 – 43) g

### Chwilair y Gwanwyn

Cofiwch y gall y geiriau fod yn groeslin, am i fyny neu hyd yn oed am yn ôl.

| | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I | E | R | T | N | M | TH | G | E | I | D | E | N | O | U |
| E | B | R | I | R | RH | Y | I | N | M | TH | W | M | DD | I |
| P | B | U | M | A | T | I | A | P | U | R | G | U | A | PH |
| H | E | T | LL | D | O | H | G | L | A | W | LL | I | S | DD |
| LL | W | D | M | C | C | W | Y | A | U | A | M | U | G | E |
| O | LL | I | R | B | E | W | U | N | M | M | A | L | E | N |
| C | Y | W | I | O | N | C | N | H | P | F | U | R | NG | L |
| R | DD | H | B | D | N | R | Y | I | O | S | LL | G | S | I |
| D | I | O | CH | H | I | E | M | G | NG | I | TH | U | G | R |
| R | L | E | LL | F | N | M | A | I | O | E | Y | E | I | A |
| M | H | R | W | B | P | N | M | O | RH | PH | N | G | R | NG |
| U | A | A | RH | N | E | O | E | N | L | E | N | H | T | I |
| H | U | D | A | F | D | TH | PH | T | CH | I | A | W | T | N |
| B | L | A | G | U | R | T | A | D | T | L | L | A | W | W |
| H | A | L | U | B | O | G | E | O | O | DD | P | M | A | C |

**Geiriau Cudd:**

Adar
Haul
Blagur
Cennin Pedr
Ebrill
Cywion
Mawrth
Mai
Oen
Planhigion
Cwningen
Glaw
Nyth
Wyau

### Cwestiwn!

Pa fath o bos ydi'ch ffefryn? Da ni isio gwybod sut fath o bethau yr hoffech chi weld yng Nghornel y Plant dros y misoedd nesa. Lluniau lliwio? Ffeithiau cŵl? Jôcs? Arbrofion Gwyddoniaeth? Mwy o bosau? Gadewch i ni wybod trwy sgwennu at **cornelyplant@outlook.com**

*Tan tro nesa, Lois ac Aran xx*

GAIR O GYNGOR TREF...

# Cricieth

PIGION o gofnodion cyfarfod y Cyngor Tref fis Mawrth.

**Aelod Newydd**

Croesawyd y Cynghorydd Delyth Lloyd i'w chyfarfod cyntaf o'r Cyngor Tref yn dilyn ei chyfetholiad ym mis Chwefror.

**Ceisiadau Cynllunio**

1. Mona Terrace – newid defnydd bwyty, fflat a llety gwely a brecwast i ddau dŷ hunangynhaliol. Dim gwrthwynebiad.
2. Gwesty'r Lion – cais am dystysgrif defnydd cyfreithlon arfaethedig ar gyfer addasiadau mewnol i ystafelloedd gwely presennol. Dim gwrthwynebiad.
3. Y Clwb Golff – cais i ddymchwel y Clwb Golff a'r ystafell ddigwyddiadau bresennol a chodi adeilad newydd ar gyfer ystafell ddigwyddiadau a phedair ystafell wely i westeion. Dim gwrthwynebiad.
4. Y cae tu cefn i'r Clwb Bowlio – cais y Cyngor Tref i alluogi gosod sied ar y tir. Dim sylwadau gan ei fod yn gais gan y Cyngor Tref ar gyfer rhandiroedd cymunedol prosiect Cae Crwn.

**Partneriaethau Cyngor Gwynedd**

1. Toiledau Cyhoeddus – cytunwyd i ymestyn y cytundeb o gyfrannu £6,000 at gostau rhedeg y toiledau yn 2021–22.
2. Cynllun Parcio 10% – cytunwyd i ymuno â'r cynllun a fydd yn golygu ychwanegiad o 10% at gostau parcio yn y dref. Bydd yr incwm 10% o'r ffioedd parcio sy'n cael eu casglu bob blwyddyn yn cael ei wario gan y Cyngor Tref ar brosiectau cymunedol.

**Prosiectau**

1. Cae Crwn – mae'r prosiect yn dod ymlaen yn dda ac mae bocsys storio ar gyfer y rhandiroedd wedi eu gosod, a hefyd 'Boardwalk' sef llwybr pren 64 medr yn yr Ardd Glöynnod Byw. Bu ymateb gwych i'r gwaith ar y cyfryngau cymdeithasol.
2. Prosiect Enwau Chwedlau a Chân – mae Twm Morys a Gwyneth Glyn wedi cynnal cyfarfod llwyddiannus iawn gyda Merched y Wawr dros Zoom i gychwyn y broses o ymledu'r prosiect. Y bwriad yw cynnwys plant yr ysgol pan fydd yr ysgolion yn llwyr weithredol. Yn y cyfamser mae plant yr Ysgol Sul am weithio ar gardiau post i gysylltu gyda'r henoed i gyfnewid negeseuon.

Un datblygiad cyffrous arall yw ymestyn y prosiect i gynnwys gwaith brodwaith o gaeau Cricieth yn ôl map y Degwm. Mae Mrs Joyce Jones, sy'n arbenigo yn y maes, yn cynllunio a chydlynu'r gwaith ac yn awyddus i gael cynifer ag sy'n bosib o'r gymuned i gymryd rhan. Gwahoddir unigolion profiadol a rhai sydd â diddordeb mewn dysgu brodwaith i gysylltu efo Joyce trwy ffonio 01766 522085.

3. Pont yr Enfys Ty'n Rhos

Cytunwyd yn y cyfarfod diwethaf i gefnogi Prosiect Enfys Ty'n Rhos mewn partneriaeth ag Adra. Mae'n cynnwys peintio rhagor o gerrig mewn lliwiau gwahanol, gyda negeseuon a phatrymau gobaith i gefnogi'r GIG. Cychwynnwyd y prosiect gwreiddiol yn ystod cyfnod clo mawr cyntaf y pandemig yn 2020. Mae'r Cynghorydd Alice Roberts yn cydlynu'r gwaith o beintio rhagor o gerrig gan blant Cricieth ac unrhyw un arall sydd eisiau ymuno.

**Grantiau i'r Cyngor Tref**

Mae'n dda nodi bod y Cyngor Tref wedi llwyddo i ddenu gwerth £42,000 o grantiau o wahanol ffynonellau ar gyfer amryw o brosiectau yn ystod y flwyddyn ariannol 2020–21.

**Cysylltu**


Gellir cysylltu gyda'r Clerc ar 01766 523294 neu trwy ebost: clerccriccieth@gmail.com


**GWNÏO BOB MATH**

**CHWILOG LL53 6PS**

Pob mathau o waith gwnïo

- Addasiadau
- Trwsio dillad
- Llenni
- Bleindiau
- Clustogau
- Dodrefn meddal
- Carafannau
- Cadeiriau



Cysylltwch â Sarah **(07779) 789 541**

ebost: sarahehughes66@gmail.com


GAIR O GYNGOR CYMUNED...

# Dolbenmaen

CYN DECHRAU ar waith y cyfarfod ar 4 Mawrth cyfeiriwyd at ddau deulu sydd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar. Cydymdeimlwyd â theulu'r diweddar John Edwards a fu'n aelod o'r Cyngor Cymuned am ddegawdau. Anfonwyd cofion hefyd at deulu'r diweddar Dewi Pennant Owen, Bron y Gadair, Pentrefelin.

**Rhybuddion Cau Ffyrdd**

Fel yr adroddwyd y mis diwethaf mae'r cyfarwyddiadau i'w dilyn o ganlyniad i gau ffyrdd wedi bod ar sawl achlysur yn anghywir. Cysylltwyd â Phrif Weithredwr Cyngor Gwynedd i dynnu ei sylw at y mater. O ganlyniad derbyniwyd ateb gan yr Adran Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd, Trafnidiaeth a Chefn Gwlad. Eglurwyd mai'r asiantaeth sy'n gwneud y gwaith fydd yn paratoi cyfarwyddiadau dargyfeirio ond bod swyddogion Cyngor Gwynedd yn gwirio'r wybodaeth. Mae'n rhaid i'r ffordd amgen fod os yn bosibl o'r un dosbarth â'r ffordd sydd ar gau, neu hyd yn oed yn well. Yn ogystal, derbyniwyd ymddiheuriad mewn perthynas â chywirdeb enwau tai ac eiddo a gafodd eu heffeithio pan gaewyd y ffordd ger Tyrpeg y Traeth – Glan y Don, Nantmor.

Bwriada'r Cyngor Cymuned wirio'n fanwl unrhyw rybuddion cau ffordd a dderbynnir yn y dyfodol am gywirdeb y cyfarwyddiadau dargyfeirio ac enwau eiddo.

**Materion Priffyrdd**

Pentrefelin – yn dilyn damwain ddiweddar ger Mynydd Du dinistriwyd rhan o'r wal. Mae rhai o'r cerrig yn rhwystro cerddwyr rhag defnyddio'r llwybr troed. Bydd y Cyngor Cymuned yn cysylltu gyda swyddogion Cyngor Gwynedd i ofyn iddynt glirio'r cerrig.

Penmorfa – mae Cyngor Dolbenmaen am gysylltu ag Adran Glanhau Ffyrdd Cyngor Gwynedd i ddiolch iddynt am y gwaith safonol a wnaed wrth glirio dail o'r lôn fawr i lawr i Dy'n Llan a hen lôn Penmorfa.

**Cais Cynllunio**

Bryn Efail Isaf, Bryncir – Cais ar gyfer dymchwel ystafell haul ar flaen yr eiddo ynghyd â chodi estyniad unllawr i ochr y tŷ a phortsh. Dim gwrthwynebiad.

GAIR O GYNGOR CYMUNED...

# Llanystumdwy

PIGION o gofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar Zoom nos Iau, 4 Chwefror o dan gadeiryddiaeth y Cynghorydd Aled Davies.

**Ceisiadau cynllunio**

1. Cefn Gwyn, Chwilog – codi adeilad ar gyfer gwartheg ynghyd â darparu llyn slyri. Dim gwrthwynebiad.

2. Llwyn Helyg, Llangybi – cais rhag-hysbysiad ar gyfer codi adeilad amaethyddol. Dim gwrthwynebiad.

3. Tir yn Bro Sion Wyn, Chwilog – cais i godi amodau ar ganiatâd cynllunio a roddwyd trwy apêl i gytuno ar fanylion deunyddiau allanol, tirlunio a datganiad dull adeiladu. Penderfynwyd gwrthod ar sail pryderon ymysg y cymdogion am y cerbydau/faniau yn parcio wrth ymyl pan fyddai'r gwaith yn cael ei wneud i adeiladu'r tŷ, a bod y cynllun gwreiddiol yn edrych yn llai na'r cynllun diweddaraf.

**Ceisiadau ariannol**

Rhoddwyd cymorth ariannol i'r canlynol: Clwb Ffermwyr Ifanc Llangybi; Mynwent Newydd Llanystumdwy; Mynwent Capel Helyg, Llangybi; Mynwent Rydd ac Anenwadol Chwilog; Neuadd Goffa Chwilog; Clwb Pêl-droed Llanystumdwy; Clwb Garddio Ysgol Llangybi; Cylch Meithrin Llangybi; Cylch Meithrin Chwilog; Menter y Plu; Dawns i Bawb; Ffermwyr Ifanc Eryri; Mynwent Tai Duon; Radio Ysbyty Gwynedd; Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2022, Sir Ddinbych; Elusen Ambiwlans Awyr Cymru.

Gellir cysylltu â'r Clerc ar ôl 6.00 yh. ar 01766 810 614, neu trwy ebost at clercccllanystumdwy@gmail.com neu gellir gweld holl fanylion y Cyngor Cymuned ar y wefan sef www.cyngorllanystumdwycouncil.org




ER COF tyner ac addfwyn am Mam, Mrs J. C. Humphreys, Trigfa, Garndolbenmaen a hunodd yn dawel 24 Mawrth 1997.
Byth yn angof – y plant a'u teuluoedd.

HARI ROBERTS GROUNDWORKS
Cil y Castell, Cricieth
LL52 0EG
• Walio
• Codi ffensys
• Slabio
• Gosod draeniau
• Ystod eang o waith peirianyddol
Ffôn: (01766) 522 469 / (07768) 312 596



D. G. PRITCHARD
Peintiwr ac Addurnwr
Prisiau cystadleuol
Ffôn: (01766) 514 218
(07501) 144 837
1 Stryd yr Eglwys
Porthmadog
Gwynedd
LL49 9HW



IFAN HUGHES
TREFNWR ANGLADDAU
Ceiri Garage
Llanaelhaearn
Ffôn (01758) 750 238
Gwasanaeth personol 24 awr y dydd

Gwyn Lloyd Williams
Adeiladwr Proffesiynol
Blynyddoedd o brofiad · Amcangyfrif am ddim
Rhif ffôn: (01758) 612 736
Symudol: (07880) 581 579

GUTO ANWYL JONES
Gwasanaeth Llafur Sylfaen
Llwyn Mafon Isaf, Cricieth
Rhif cyswllt: 07881536550
• Codi waliau gerrig a chladio
• Ffensio, agor ffosydd a chlirio
• Gwaith tractor a threlar
• Unrhyw waith gyda pheiriant
G. A. Jones Groundworks



Pritchard a Griffiths Cyf.
SEFYDLWYD 1936 ESTABLISHED
Trefnwyr Angladdau
• Gofal Personol 24 awr
• Capel Gorffwys
• Cynlluniau Angladd Rhagdaledig
Heol Dulyn, Tremadog
Ffôn: (01766) 512 091
post@pritchardgriffiths.co.uk






DYMA NI wedi cyrraedd Capel y Beirdd ar gyrion Rhoslan – capel a sefydlwyd gan y Bedyddwyr Cymreig yn 1822 ond a ailadeiladwyd yn 1874 ar sail cynllun y pensaer lleol, R. Williams. Sgwn i pa adeiladau eraill yn yr ardal sy'n dystiolaeth o'i grefft? Rydym ni hefyd yn ardal y ddwy afon – Afon Dwyfor yr afon sanctaidd fawr, ac Afon Dwyfach yr afon sanctaidd fach (Owen, H.W. ac R. Morgan – *Dictionary of Place-names of Wales*, Gomer, 2007).

Pam yr enw Capel y Beirdd, meddech chi? Wel, yn ôl y sôn oherwydd i ddau fardd lleol (a ddaeth yn enwog trwy Gymru maes o law) gymryd rhan flaenllaw yn sefydlu'r capel, sef Robert ap Gwilym Ddu (Robert Williams) o fferm y Betws Fawr, a Dewi Wyn o Eifion (Dafydd Owen) o fferm y Gaerwen. Mae'r capel yn swatio'n daclus braf rhyw hanner ffordd rhwng y ddwy fferm!



***Robert ap Gwilym Ddu***
***(darlun olew ar ganfas gan John Roberts)***

Ffermwr cefnog oedd Robert Williams (1766 – 1850). Roedd rhai felly i'w cael bryd hynny, siwr braidd! Ymddiddorai mewn diwinyddiaeth, llenyddiaeth Gymraeg, cerddoriaeth a phethau hynafol. Priododd Catherine pan oedd yn hanner cant oed (roedd hi ugain mlynedd yn iau) a ganwyd merch o'r enw Jane Elizabeth iddynt. Bu hi farw yn ddwy ar bymtheg oed a symudodd y ddau i fyw i Fynachdy Bach yn fuan wedyn. Disgrifir Robert gan W. J. Gruffydd yn *Y Llenor* fel 'gwir aristrocrat mewn llên', mai 'ychydig iawn o barch y cyhoedd a dderbyniai', ac 'adnabyddid ef gan mwyaf fel awdur un emyn'!



***Dewi Wyn o Eifion***
***(darlun olew ar ganfas gan William Roos)***

Hen lanc oedd Dafydd Owen (1784 – 1841). Roedd ei frawd Owen yn cadw Siop y Gaerwen ym Mhwllheli a symudodd Dafydd a'i fam yno am gyfnod i ofalu am y siop oherwydd iechyd bregus y brawd. Roedd yn ddisgybl i Robert ap Gwilym Ddu ac yn cael ei gyfri'n feistr ar y mesurau caeth, fel y tystia ei gadwyn o englynion i Bont Menai ('Uchelgaer uwch y weilgi…').

Roedd gan y ddau rai pethau'n gyffredin – ffermio, barddoni ... a phwdu! Enillodd Robert fedal Cymdeithas y Gwyneddigion yn 1792 yn un ar hugain oed cyn ffraeo efo nhw yn 1823. Enillodd Dafydd yr un fedal yn 1805 yn un ar hugain oed ac yna sorodd yn bwt pan ddaeth yn ail yn Eisteddfod Dinbych 1819.

Yn ddiddorol, i gloi, ni chafodd Robert ei fedyddio erioed ac nid oedd yn aelod o unrhyw eglwys. Derbyniwyd Dafydd i'r capel ychydig cyn ei farw, er i'w frawd fod yn ffyddlon i'r achos ar hyd ei oes. Rhyfedd o fyd!

Gyda llaw, mae gwreiddiol y lluniau welwch chi efo'r erthygl yma i'w gweld yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru yng Nghaerdydd.



# Ni'r Ffermwyr

YN ANFFODUS collodd y diwydiant amaeth y bleidlais yn Senedd Cymru ynglŷn â'r ddadl ar bolisi amaeth Cymru o ddechrau mis Ebrill ymlaen. Daeth yn glir mai'r un yw polisi Llywodraeth Cymru â'r eiddo Lloegr, sef cynhyrchu cyn lleied o fwyd â phosibl ar ffermydd Prydain fel y gellir mewnforio bwydydd rhad o wahanol wledydd y byd.

Mae prinder bwyd eisoes yn China heb sôn am y degau o wledydd eraill lle mae'r brodorion yn newynu. Mae Lesley Griffith a'i ffrindiau yn anwybyddu'r problemau hyn, ac ar y radio y bore 'ma (7 Mawrth) cawsom wybod fod pris caws a menyn wedi codi'n arw yn Ewrop. Dywedwyd hefyd fod cwmni Arla mewn trafodaethau i allforio peth o'i gynnyrch o Brydain i China.

Cadarnhaodd un gweinidog Llafur mai nod y llywodraeth yw sicrhau mewnforion rhad, ac mae un archfarchnad wedi tynnu'n ôl o ddefnyddio'r arwydd tractor coch i'w galluogi i ostwng y safon. Beth fydd y dyfodol wyddom ni ddim. Does ond gobeithio y bydd yr undebau'n mynd rhagddynt i gael barn Uchel Lys fel y bydd y llywodraeth nesaf yn ailystyried y polisi.

Soniodd Margiad Berthaur yn ei cholofn am Goetan Arthur a'r broblem fawr o sut i'w chodi. Cofiaf pan oeddwn yn blentyn i gilbost giât y Lodge gael ei dynnu i lawr gan lori. Roedd yn amlwg y byddai'n ofynnol i gael rhywun i'w ailgodi a'r gŵr a ddaeth i wneud hynny oedd Griffith Owen, Maenllwyd, Pencaenewydd. Pan oedd ar fin gorffen gwelodd ei fod un garreg yn brin. Ychydig cyn hynny roedd dynion gyda cheibiau a rhawiau wedi bod yn agor traen o'r Lodge i Fur Goeden sydd uwchlaw Hafod, Llithfaen. Wrth groesi winllan Lodge roeddynt wedi codi cerrig mawr ac wrth wneud y gwaith aeth Griffith Owen yno i chwilio am y garreg yr oedd ei hangen ar ben y cilbost. A dyna lle'r oedd hi. Aeth fy nhad gydag ef i'w nôl mewn berfa.

Pan ddaethant at y cilbost gofynnodd fy nhad: 'Sut y medrwn ni ei chodi hi?' 'Fel hyn yli,' meddai Griffith Owen gan afael yn y garreg, ei chodi uwch ei ben a'i gosod yn ei lle. Bagio'n ôl wedyn i weld a oedd hi'n iawn cyn camu ymlaen a rhoi pwniad iddi. 'Dyna hi John, mae hi yn ei lle,' meddai. Ac mae'n dal yno hyd heddiw. Credaf mai un o deulu Tŷ Corniog, Pentreuchaf oedd Griffith Owen – dyn eithriadol o gryf a llawer o alw am ei wasanaeth.

Cawsom ni, y cynhyrchwyr llaeth sy'n cyflenwi Hufenfa De Arfon anrheg bach yn werthfawrogiad am ein cynnyrch yn ystod y Cofid, a byddwn yn disgwyl cael codiad ym mhris y llaeth yn ystod y misoedd nesaf 'ma wrth gwrs.

## Colofn y Coleg

Coleg Meirion Dwyfor

# Sesiynau heriol

YN DDIWEDDAR cafodd rhai o fyfyrwyr Gwyddorau Cyfrifiadureg a Ffiseg Coleg Meirion-Dwyfor gyfle i fynychu sesiynau herio ac ymestyn rhithiol gyda myfyrwyr Massachusetts Institute of Technology (MIT). Bu'r myfyrwyr yn ddigon ffodus i gael cymryd rhan mewn dwy sesiwn, un ohonynt yn gyflwyniad i Astroffiseg a'r llall yn gyflwyniad i gylchedau trydanol. Mae'r Brifysgol hon wedi chwarae rhan allweddol yn natblygiad sawl agwedd ar wyddoniaeth fodern, peirianneg, mathemateg a thechnoleg, ac mae'n nodedig am arloesedd a chryfder academaidd. Fe'i hystyrir yn aml yn un o brifysgolion gorau'r byd.

Dywedodd Huw Hughes, darlithydd Cyfrifiadureg yng Ngholeg Meirion-Dwyfor: 'Mae'r math hwn o gyfle yn amhrisiadwy i'n myfyrwyr. Allan o labordai'r MIT y daeth yr holl dechnoleg i greu'r we fyd-eang, technoleg adnabod llais a thechnoleg cylchedau digidol. Heb sôn am gannoedd os nad miloedd o dechnegau a theorïau pwysig ym mhob maes yn y gwyddorau cyfrifiadurol a chymdeithasol. Dros gyfres o sesiynau cafodd ein myfyrwyr y cyfle i ddysgu mwy am Astroffiseg, Deallusrwydd Artiffisial gan rai o'r gwyddonwyr mwyaf blaenllaw yn y meysydd hyn.'

Un o'r myfyrwyr oedd yn rhan o'r sesiynau arbennig yma yw Keira Parker o Lanystumdwy. Dywedodd am y sesiynau: 'Fe wnes i fwynhau'r ddwy sesiwn ffiseg y cymerais ran ynddynt yn fawr iawn. Roeddan nhw'n gyfle arbennig i herio fy nealltwriaeth o ffiseg, heb i mi deimlo allan o fy nyfnder. Roedd gweld myfyrwyr oedd yn hynod frwd am y pwnc yn ysbrydoli rhywun. Dwi'n ddiolchgar iawn am y cyfle i fod yn rhan o hyn ac yn edrych ymlaen at ddigwyddiadau tebyg yn y dyfodol.'




***Keira Parker***

Ychwanegodd Huw Hughes: 'Mae cynnig y math yma o brofiadau i'n myfyrwyr yn rhan ganolog o waith Coleg Meirion-Dwyfor. I enwi dim ond pedwar o gyn-fyfyrwyr MIT sef Buzz Aldrin, Ronald McNair, Neil Armstrong ac Ilene Gordon, mae'r neges yn glir i'n myfyrwyr – mae'r dyfodol yn eich dwylo chi.'

## Y bugail o'r Annedd Wen

DIDDOROL oedd darllen yn rhifyn mis Chwefror o'r Ffynnon, dan newyddion Y Ffôr, am y cwestiynu sydd wedi bod am hanes y Fourcrosses Inn. Gwelir enw'r hen dafarn yn glir ar dalcen tai Annedd Wen a Berwyn ar y groesffordd. Bu fy nhaid a'm nain a'u meibion (fy nhad yn un ohonynt) yn byw yn Annedd Wen am gyfnod.



*Y Parch. H. G. Roberts a'i deulu*

Difaru mae rhywun wrth fynd yn hŷn na fu mwy o holi a stilio am hanes ac achau'r teulu tan iddi fod yn rhy hwyr, a phrin felly yw fy ngwybodaeth am y teulu ar ochr fy nhad. Hyn, o bosib, yn rhannol oherwydd iddo golli ei rieni pan oedd yn ei arddegau cynnar, a finnau felly erioed wedi cael y fraint o'u hadnabod.

Gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd oedd fy nhaid, y Parch. Hugh Griffith Roberts. Magwyd ef yn ardal Llandwrog Uchaf ac ar ôl mynychu Coleg y Bala aeth i weinidogaethu yn Llanrhaeadr-ym-Mochnant. Yno y cyfarfu a phriodi fy nain, Margaret Jane Rowlands, hithau'n ferch i deulu o filfeddygon. Ganwyd tri o hogiau iddynt – Hywel Gittins, Dewi Wyn, a fy nhad Ifor Glyn. Ymlaen wedyn i Gapel Rhiw ym Mlaenau Ffestiniog cyn cael galwad i Gapel Ebeneser, Y Ffôr yn 1925. Gweinyddodd ei fedydd cyntaf yno ym mis Rhagfyr 1925 sef Meirion, plentyn Robert (plismon) a Nell Jones.

Daeth colled fawr i ran y brodyr pan fu farw eu mam yn 48 mlwydd oed, ac wedyn eu tad tua 17 mis yn ddiweddarach. Mae gennyf frith gof o fy nhad yn adrodd fod ei dad yn pregethu ym Mhenmorfa pan drawyd ef yn wael gyda llid y pendics, a chael ei gludo i'r ysbyty. Bu farw yn y 'Cottage Hospital' yng Nghaernarfon ym mis Mawrth 1932. Rhyfedd meddwl fy mod innau, yn ddiarwybod, wedi gweithio o swyddfa yn yr ysbyty yma am gyfnod byr cyn i'r adeilad gael ei ddymchwel.

Bob tro y byddai Nhad yn ymweld â ni yng Nghricieth byddai'n rhaid mynd ar sgowt i'r 'brifddinas', fel y galwai Y Ffôr. Roedd ganddo feddwl mawr o'r pentref a soniai am ei gyfnod yno gyda phleser ac ambell atgof plentyn o ddwyn afalau a chwarae 'knock doors'!

Sawl blwyddyn yn ôl derbyniais amlen ac ynddi benillion yn cyfeirio at sefyllfa drist y teulu bach yn nechrau'r 30au. Daeth yr amlen trwy law Valerie Owen o Gricieth, yn eiddo ei rhieni y diweddar Mr a Mrs E. P. Owen, gynt o'r Ffôr. Roedd gan ei thad gysylltiad teuluol â Berwyn, y drws nesaf i Annedd Wen. Wrth ddarllen am yr holi yn Y Ffynnon ac ar weplyfr Cyswllt y Ffôr, cofiais am yr amlen a bu'n rhaid chwilota amdani. Dyma felly gynnwys yr amlen yn union fel y'u teipiwyd:

**Y Côr Telyn**
April 4th 1932

NOS LUN, bu y côr hwn yn cynnal cyngerdd yn Fourcrosses, ger Pwllheli, a chawsant hwyl dda. Canwyd penillion gan Elen [Elen Eryri] ac Edith Evans [Telynores Eryri] er cof am y diweddar weinidog, y Parch. H. G. Roberts, ac ar gais amryw o'r Eglwys (ac nid yn gymaint oherwydd eu teilyngdod) rhoddaf hwynt yma.

**Er cof am y Parch H. G. Roberts, Fourcosses. (Cyflwynedig i'w Fechgyn)**

Ar hanner ei ddydd yr aeth adre
Ar alwad ei Dad yn y Nef,
Mae'r praidd yn y gorlan yn disgwyl
Ac yntau yn fyddar i'w llef.

Mae'n chwith ar ei ôl yn y seiat
Yn gwrando profiadau y saint,
A thra mae y byd yn cael colled
Mae'r Nefoedd yn arddel y fraint.

Hiraethodd am gwmni ei briod,
Dihangodd i'r Wynfa o'i flaen,
Hiraethai wrth weled ei fechgyn
Heb fam, i'w tywys ymlaen.

Gweddïai bob dydd dros ei eglwys,
Ei ofal am dani oedd fawr,
Gweddïai dros seintiau'r cynulliad,
Gweddïai dros eraill ar lawr.

Mae'r ardal i gyd yn hiraethu
Ac "Annedd Wen" sy'n ddu,
A chofied y plant fod eu rhiaint
Yn eu haros hwythau fry.

Cyn gorffen ei waith ar y ddaear
Aeth adre ar alwad ei Dduw,
Ffarweliodd yn dawel wrth gofio
Fod Tad yr Amddifaid yn fyw.

Elen A. Evans,
Cwmcloch, Beddgelert.

***Elsbeth Gwynne, Cricieth***

## Hybiau gweithio o bell



DROS y flwyddyn ddiwethaf mae'n debyg bod llawer ohonoch wedi addasu i weithio gartref. Er bod rhai'n ysu am gael mynd yn eu holau i'r swyddfa, i eraill mae gweithio gartref wedi bod yn brofiad cadarnhaol sy'n rhoi mwy o hyblygrwydd ac osgoi'r angen i gymudo'n ddyddiol.

Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru am glywed eich barn ar gynllun i sefydlu rhwydwaith o 'hybiau' ar draws Cymru, fyddai'n darparu gofod ffisegol i bobl weithio ynddynt, ac i'w rhannu â llawer o gwmnïau eraill. Y gobaith yw y bydd yr 'hybiau' yma'n galluogi pobl nad ydynt yn gallu gweithio o adref neu nad ydynt yn dymuno gwneud hynny, i weithio yn eu cymuned leol ac yn nes at eu cartrefi.

Os hoffech ddarparu adborth ar yr 'hybiau' lleol hyn, yna ewch draw i'r wefan isod. Bydd yr arolwg yn cau ar 26 Mawrth.
https://gweithioobellremoteworking.commonplace.is/#

# CYNGHANEDD MEWN CHWINCIAD LLYGAD LLYG

## yng nghwmni Twm Morys

## TASG 9

Y DASG NEWYDD oedd llunio tri chwpled llusg-a-mantach eto ond y tro hwn gyda'r ail linell wedi ei chynganeddu. Mi gychwynnwn ni efo ***Deio***:

Cofio'r gwir / a'r hen hiraeth
Â **gw**ên; / y deigryn / yn **g**aeth.

Porfa werdd / yn y gerddi,
A **d**au / yn dy gofio / **d**i.

Yr oedd sglein / ar hen leiniau
A **d**ŵr / i gyflenwi / **d**au.

Rŵan, mi gofiwch mai gair ydi 'mantach' i ddisgrifio ceg â'r dannedd i gyd wedi mynd heblaw un ym mhob pen. Mewn llinell o Gynghanedd Draws Fantach mae un gytsain ym mhob pen yn ateb ei gilydd. Dywedwch gwpledi Deio yn uchel, ac mi glywch chi'r glec o dan yr acen ym mhob pen: '**gw**ên'/'**g**aeth'; '**d**au'/'**d**i'; '**d**ŵr'/'**d**au'. Tri chwpled hollol gywir. [Mi ddown ni'n ôl eto at y gyfatebiaeth '**gw**ên' ('**gw-**')/'**g**aeth' ('**g-**')!]

'Wedi meddwl gwneud y cwpledi ar un thema,' meddai ***Elin***, 'ond cawl smala sydd yma! Dewiswch y rhai wnaiff ddim codi cywilydd arnaf!' Cymerwn nhw fesul un:

Dwy grempog / llawn sbigog(lys
A **ph**ump / fwy blasus / â **ph**ys.

Cwpled cywir (os ydan ni'n fodlon derbyn yr 'l' strwmblus o dan yr acen yn 'sbigoglys'!) Mae un gystain sef 'ph' o dan yr acen ym mhob pen yn yr ail linell.

Breuddwydiaf / wrth yr afon
Fod **ll**ais / y llwydion / yn **ll**on.

Llusg hyfryd yn y llinell gynta. Ond beth am yr ail linell? Mae'r gytsain 'll' o dan yr acen ym mhob pen. OND mae dwy gytsain strwmblus arall yn y pen yma yn y gair 'fod' – dyna DRI dant yn un pen i'r geg yn lle un!

Cwmwl du / sy'n creu düwch
Y**n Dr**e; / mae gofid / y**n dr**wch.

Dyma gwpled trawiadol a chywir hefyd! Ond sylwch ar yr ail linell. Mae tri dant eto yn y pen yma, yn 'y**n Dr**e', sef 'n', 'd' ac 'r'. Y gwahaniaeth y tro hwn ydi bod tri dant yn y pen arall hefyd, yn 'y**n dr**wch', a'r rheini'n cyfateb yn union: 'n', 'd' ac 'r'. Nid mantach ond cynghanedd gywir yr un fath – traws gytbwys ddyrchafedig a bod yn fanwl! Mae Elin wedi cael y blaen arnon ni i gyd!

'Mae yna gymaint i'w ystyried,' meddai ***Ela***, 'ond dyfal donc…' Felly'n union mae bwrw 'mlaen!

Dewch, wyrion, / draw i'm llonni;
Rwy'n daid / erbyn hyn / i dri.

Mae'r llusg yn gywir ac yn glws. Ond mae gormod o ddannedd yn y geg yn yr ail linell. Mae '**r**wy'**n**' yn strwmbwl go fawr. A sylwch ar y gyfatebiaeth o dan yr acen yn y ddau ben: 'daid'/'dri'. Mi fyddai '**d**ied'/'**dr**y' yn dderbyniol i gyflythrennwr o Sais. Ond yn Gymraeg mae angen cyfatebiaeth lân, gyflawn: '**D**aid'/'**d**el' neu '**dr**i'/'**dr**wg'.

Y gamp lawn / 'di'i chyflawni;
Tyrd '**n**ôl / â'r gwpan / i **n**i.

Cwpled amserol! Mae'r gyfatebiaeth o dan yr acen yn neupen yr ail linell ('n'/'n') yn gywir. OND mae 'na ddannedd dros ben yma eto, on'd oes, yn '**tyrd**'.

Un wyrth / 'mysg llu o wyrthiau
Yw **gw**e, / mor gywrain / yw'r **gw**au.

10/10! Nid 'y We' sydd yma o reidrwydd, cofiwch. Mae gwe'r pry cop yn wyrth hefyd! Ac nid llusg wyrdro fel roedd Ela yn rhyw how ofni sydd yn y llinell gynta. Dywedwch hi'n uchel: yr un-un sain 'yrth' sydd o flaen yr orffwysfa ag sydd o dan yr acen yn y pen. Er mai 'gweu' y bydd Ela yn ei ddweud, mae'n 'gobeithio bod rhywun yn rhywle yn dweud 'gwau'!' Mae'r ddau yn iawn! A sylwch ar y gyfatebiaeth rhwng '**gwe**' a '**gw**au' o'i chymharu â '**gw**ên' a '**g**aeth' Deio. Pa'r un sy felysa yn y glust?

***Owain*** sy nesa.

Er oerfel blin / egina
A'i bêr / flodeuyn / â'n bla.

Yr eirlys! Cyfatebiaeth Seisnig eto yn anffodus yn yr ail linell: 'b' / bl'.

Y fflur deg / a'i chloch degan
A'i **ll**u / ym mynwent / y **ll**an.

Dyna welliant! Un dant yn unig ym mhob pen i'r geg, a'r ddau ddant yr un fath â'i gilydd. Hynny ydi, y gyfatebiaeth 'll'/'ll' yn lân.

'Ymddiheuriadau,' meddai ***Owenna***, 'am anfon cynifer o gwpledi i'ch sylw, ond fe gasglwch fy mod i'n *hooked* braidd!' Nid tocyn mawr o gwpledi yn driphlith draphlith sydd gan Owenna mewn gwirionedd ond tri chywydd gorffenedig. Mae hi'n biti garw nad oes lle i'w dyfynnu i gyd ar eu hyd. Dyma detholiad bach o gywydd hyfryd yn croesawu'r gwanwyn:


Lili Wen / eto leni
A **n**es / yw'r gwanwyn / i **n**i.
Mae natur / yn blaguro
Y(n) **f**rwd / hyd erwau / y **f**ro.
Haul cynnes / yn anwesu
Y(n) **f**wyn / fel hafau / a **f**u.
Clywaf afon / aflonydd
A'i **d**ŵr / byrlymus / bob **d**ydd…

Rŵan, mi sylwch fod yma ddwy linell ag 'n' strwmblus ynddyn nhw! 'Mae gen i go,' meddai Owenna, 'i brifardd (dienw) ddeud ar gwrs cynganeddu yn Nhŷ Newydd flynyddoedd yn ôl nad oedd rhaid ateb yr "n" sy o flaen yr orffwysfa. Y term arhosodd efo fi oedd "n" wreiddgoll…'

Wel, mi gewch chi wybod mwy am hynny y tro nesa! Yn y cyfamser, gwnewch dri chwpled eto o lusg-a-mantach, gan gofio mai un dant sydd ym mhob pen i geg fantach, a'r ddau yr un fath yn union â'i gilydd!

Anfonwch eich cynigion ata i: **twmtrefan@hotmail.co.uk** erbyn 6 Ebrill os gwelwch yn dda.

# Croesair 420




Yn ystod y cyfnod pryderus hwn nid yw'r Croesair yn cael ei ystyried yn gystadleuaeth. Felly gofynnwn yn garedig i chi *beidio* ag anfon eich atebion i Dilys mewn ebost na thrwy'r post. Rhywbeth i'ch diddori yn unig ydi o tra byddwch yn hunan-ynysu.

**ATEBION CROESAIR 419**

AR DRAWS: 1 Cnocell 4 Tywyllu 7 Oedi 8 Cynhaeaf 9 Darbodus 12 Ysu 15 Tyneru 16 Anhardd 17 Mes 19 Sgrechian 24 Bratiaith 25 Diau 26 Unplyg 27 Neidio

I LAWR: 1 Cnoi 2 Oedrannus 3 Llacio 4 Tenau 5 Wyau 6 Lliaws 10 Barus 11 Sinach 12 Ymadawiad 13 Urddo 14 Atom 18 Eirin 20 Gwasg 21 Eithin 22 Stôl 23 Puro




**AR DRAWS**

7 Profi cywirdeb wrth griw10 (6)
8 Sythu, cymhwyso ni o 'Uni' (6)
9 C- - - bydded drugarog (4) Dihareb
11 O- - a rydd ateb(3) Dihareb
12 Rhan ôl y corff (4)
15 Co bach yn rhedeg i ffwrdd, y Molgi (5)
17 Coed a ddwyn pla (7)
19 Coedyn i hongian mochyn arno o flaen aradr, gan Caren MB (7)
21 Meiriolodd a dadmer (5)
24 Datganiadau Now Ll (4)
27 Ennaint i athro Samuel (3)
28 Cweryl wrth siarad yn ffraeth (4)
30 Adeilad eglwysig y cnul (6)
31 Enwir hwn yn yr ewyllys (6)

**I LAWR**

1 Aer y wybren las (4)
2 Pwyllog wrth droi dy fara (4)
3 Ffin o'r gro (5)
4 Tâl lleol o fudd i'r teulu (6)
5 Lliw eog a lliw ceg (4)
6 Adyn o'r cafn (4)
9 Symudiad y goes wrth gerdded (3)
10 Sgwrsio a siarad, dim mygio Mo (7)
13 ABC o'r ddwy Eg (7)
14 Wyau pryfed bychain (3)
16 Di-wres o boer a lloer (3)
18 Rhan o ddrama 'Cat' (3)
19 Coed cnau o Nantcyll (3)
20 Newyddion da Mathew neu Marc (6)
22 Diwrnod cyn heddiw (3)
23 Mae pedair ar ddeg ohonynt mewn Soned (5)
25 W- - - foroedd o fendithion (4) Emyn
26 Dihoeni a llesgau (4)
28 Enw am salwch neu simdde (4)
29 Mae gennym ddwy o'r rhain meddai Rena (4)

**Haydn E. Williams Cyf.**
Syrfewyr Adeiladu Siartredig
RICS
Gellidara, Penrhos, PWLLHELI
Gwynedd LL53 7HF
**Ceisiadau Cynllunio**
**Cynlluniau Adeiladu**
**Adroddiadau i Brynwyr Tai**
**Gwaith Proffesiynol Cyflawn**
**Ymgynghori**
(01758) 614 444 (07881) 641 792
info@haydnewilliams.com
www.haydnewilliams.com

**Gwasanaethau Angladdau**
**PORTHMADOG**
**10 Stryd Newydd, Porthmadog**
Rheolwr Swyddfa
ac Ymgymerwr Angladdau
**Karen Vaughan (01766) 514 333**
karen@porthmadogfunerals.com
• Capel Gorffwys Preifat
• Sylw personol 24 awr
• Cynlluniau angladd *'Golden Charter'*
• Cerrig Coffa
**H.O. Davies Cyf.**
Trefnwyr Angladdau Annibynnol
yn gwasanaethu ardal eang.
**www.porthmadogfunerals.com**

**Gwasanaeth Tacsi**
**CRICIETH**
**(01766) 522 726**
Meysydd Awyr
Gorsafoedd Rheilffordd
Gwasanaeth Lleol
UNRHYW BELLTER




## Cofiwch anfon eich newyddion lleol atom erbyn 13 Ebrill




AR ddechrau'r mis diwethaf daeth y meddyg Dennis a Sera, Penbryn Neuadd yn nain a thaid unwaith eto pan anwyd Cadi i'w merch Rebecca a Dave. Llongyfarchiadau a phob bendith i Cadi Elizabeth a'r teulu i gyd.

Treulio ychydig ddyddiau yn Ysbyty Gwynedd fu hanes Robert Davies, Ger y Bont. Gwellhad buan iddo, ac i unrhyw un arall o'r pentref sy'n cwyno.

Cydymdeimlwn â theulu Nick Claybrook, gynt o Abersoch a fu farw ar 1 Chwefror yn 65 oed yn Ysbyty Folkstone – gŵr y diweddar Jackie a fu farw ddim ond saith mis yn ôl, a brawd annwyl Garron Ger y Bont.

Cydymdeimlwn hefyd â theulu Arallt, Abersoch ar golli Dora, Penclogwyn gynt – priod y Parch. Emlyn Richards, Cemaes, Ynys Môn. Cofion annwyl ato yntau o fro'r Ffynnon.

Anfonwn ein cofion a'n cydymdeimlad at Anwen, Prifathrawes Ysgol Abererch, ei gŵr Arwel a'r genethod Mari a Lowri, yn dilyn marwolaeth rhyfeddol o sydyn Glenda Burke yn 56 oed ym Mhorthmadog – chwaer ffyddlon a modryb hynod hwyliog. Pob cydymdeimlad â'r teulu i gyd.

Gobeithio bod nifer o'r pentref wedi cael eu brechlyn cyntaf yn ystod yr wythnosau diwethaf. Mae rhai ohonom bellach wedi bod yn ffodus iawn i gael yr ail. Diolch i'r holl weithwyr iechyd.




LLONGYFARCHIADAU i Morgan Rhys ap Rhisiart, Derwin Bach ar ennill gradd MA Dosbarth Cyntaf ym Mhrifysgol Leeds. Pob dymuniad da iti ar gyfer y dyfodol.

A minnau wedi bod yn ohebydd lleol am 30 mlynedd rwyf wedi penderfynu ei bod yn amser i mi roi cyfle i rywun arall gasglu newyddion Bryncir. Gofynnaf yn garedig i unrhyw un sy'n fodlon gwneud y gwaith gysylltu â fi ar gwindy@hotmail.co.uk neu 07717 125543 fel y gellir cyhoeddi enw a manylion cyswllt y gohebydd newydd yn rhifyn mis Ebrill o'r Ffynnon. Diolch yn fawr iawn, Mair Parry.






*Iorwerth a Glenys ar ddydd eu priodas yn 1971*

LLONGYFARCHIADAU i Iorwerth a Glenys Jones, 51 Ty'n Rhos ar ddathlu eu Priodas Aur yn ddiweddar. Priododd y ddau yng Nghapel Isaf, Llithfaen ar 13 Mawrth 1971. Dymuniadau gorau iddyn nhw oddi wrth y teulu i gyd a chan bawb ohonom.

Anfonwn ein cydymdeimlad at Mandy Jones, Ffordd Henbont a'i chwaer Glenda Ifans, Llanystumdwy a'u teuluoedd. Bu farw eu mam ddechrau'r mis. Cydymdeimlwn hefyd â Manon Shakespeare a'r teulu yn dilyn marwolaeth ei nain.



***Dr Ian Rees***

Llongyfarchiadau i Dr Ian Rees, Parciau Mawr ar gael ei benodi'n gadeirydd yr elusen Aloud. Nod yr elusen yw hybu canu corawl ymhlith pobl ifanc er mwyn meithrin hunanhyder a sgiliau, ynghyd â datblygu'r synnwyr o gymuned. Fe'i sefydlwyd yn 2012 ac mae'n cynnal gweithgareddau drwy Only Kids Aloud ac Only Boys Aloud. Pob hwyl i Ian gyda'r gwaith.

Mae'n braf gweld y gwaith sydd wedi ei wneud hyd yma wrth i ardal y rhandiroedd wrth ymyl y Clwb Bowlio gael ei datblygu. Bwriadwn sôn mwy am y cynllun yn y rhifyn nesaf.

Llongyfarchiadau i Danielle Crisp, 17 Ty'n Rhos sydd wedi llwyddo i godi £3,000 at Ofal Cancr Marie Curie ac ymchwil i gancr. Llwyddodd Danielle i wneud hyn trwy werthu tocynnau raffl, a hyn i gyd er cof am ei thad Steven Barlow a fu farw y llynedd.




CROESO i Clare ac Adrian Roberts sydd wedi ymgartrefu yn Nhŷ'r Ysgol. Dymunir yn dda iddynt yn eu cartref newydd.




DAETH llawenydd mawr i ran Mr a Mrs William Lloyd Williams, Rhandir yn ystod deufis cynta'r flwyddyn gan iddynt gael y pleser o groesawu wyres ac ŵyr bach i rengoedd y teulu. Ar 23 Ionawr ganwyd merch fach, Wini Rhôs, i'w merch Llio a'i gŵr Iwan yn Rhoslan, a chwta fis yn ddiweddarach ar 18 Chwefror ganwyd hogyn bach, Efan Dafydd, yn fab i'w mab hynaf David a'i wraig Ffion sy'n byw ym Mhwllheli. Llongyfarchiadau fil i Taid a Nain ac i'r rhieni newydd.

Dymunir adferiad iechyd llwyr a buan i Huw Ogwen Pritchard, Llys Paradwys, Y Star, Ynys Môn yn dilyn derbyn triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Walton Lerpwl yn ddiweddar. Da oedd clywed iti gael dod adref i 'Fôn, dirion dir' at Elin Angharad a Neli Huw. Mae gwreiddiau Huw Ogwen yn ddyfnion iawn yn nhir y Cwm gan iddo dreulio rhan o'i blentyndod ar aelwyd ei daid a'i nain, sef y diweddar annwyl Mr a Mrs Huw Aerau a Sydney Hughes, Braich y Bîg. Cofion annwyl atat, Huw.




ANFONWN ein cofion at rai o'n plith sydd wedi treulio cyfnodau mewn ysbytai yn ddiweddar ac at amryw ohonoch o'r pentref sydd heb fod yn teimlo'n rhy hwylus. Yn dilyn damwain yn ei chartref pan dorrodd ei ffêr bu'n rhaid i Caren Jones, Tanrallt dreulio cyfnod byr yn Ysbyty Gwynedd. Gobeithio fod pethau'n well erbyn hyn, Caren, a'ch bod yn medru ymlwybro. Bu Iestyn Fôn, Hafod, Stad Ty'n Rhos hefyd yn Ysbyty Gwynedd am gyfnod a dymunwn yn dda iddo yntau. Cofiwn hefyd at Mrs Sian Jones, Talar Deg sydd wedi derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

Llongyfarchiadau i Aled a Delyth Davies, Ael y Bryn ar eu gwaith hynod o raenus ar *Oedfa'r Bore* S4C ddydd Sul, 7 Mawrth. Cofiwch bod modd gwylio'r oedfa o hyd trwy fynd i S4Clic

Merched y Wawr: Mrs Rita Davies, yn wreiddiol o Sir Drefaldwyn ond bellach yn byw ym Mhenrhyndeudraeth, fu'n diddanu'r gangen dros Zoom nos Fawrth, 16 Chwefror. Bu'n dangos ei chasgliad eang o ddodrefn Cymreig sydd wedi ei gywain ganddi ar hyd y blynyddoedd. Roedd pob eitem â'i gymeriad a'i stori ei hun ac yn grefftwaith cywrain iawn. Gwelsom gypyrddau deuddarn a thridarn, dreseli ac ambell grud ymysg llawer eitem oedd yn ddeniadol iawn i'r llygad. Mae'r dodrefn hyn yn rhan o'n treftadaeth, ac yn werth rhoi cartref iddynt a'u cadw i'r oesoedd a ddêl. Croesawyd pawb o'r aelodau a Mrs. Davies y gwestai gan Phyllis. Enillydd y raffl y tro hwn oedd Enid.




CROESO i Maldwyn, Bryn Eifion gynt a'i wraig Emma sydd wedi ymgartrefu yn Glan Gors. Gobeithio y byddwch yn hapus yn ein plith.

Cydymdeimlwn â Mrs Gwen Griffiths a'r teulu, Deiniolen – gynt o'r Hafod – ar ei phrofedigaeth o golli ei gŵr John yn ddiweddar.

Yn yr un modd, cydymdeimlwn â Dic Parry (brawd Gwen), ei briod Kathleen a'r teulu ar farwolaeth ei ferch Gwenan Parry, Porthmadog.

Anfonwn ein cydymdeimlad hefyd at Chris, 2 Bryn Hyfryd yn ei brofedigaeth o golli ei bartner Melanie (Mel) a oedd yn gefnogol iawn i weithgareddau'r pentref.

Ein cofion atoch i gyd.




MAE 'na ddathliadau lu wedi bod mewn llawer i gartref yn ddiweddar gan fod sawl un o'r pentref wedi dathlu pen-blwydd arbennig iawn yn ystod y mis. Dymunwn felly ben-blwydd hapus i Megan Jones, Ty'r Felin yn 90 oed; Elwyn Davies, 3 Erw Sant yn 70; Paul Ireland, Rhydychain yn 60; Jason Roberts, Tan y Fynwent yn 30, a Jac, 5 Llain Fain yn 18. Gobeithio i bawb gael dathlu yn eu ffordd fach eu hunain er gwaetha'r cyfnod clo.

Os oes gan unrhyw un newyddion i'w roi yn Y Ffynnon yn fisol, yna cysylltwch â Lillian yn Garej Ceiri mewn da bryd.




| | |
|---|---|
| Teulu Brychyni | £20 |
| Eirian Morgan, Penrhyndeudraeth | £8 |
| Lis, Bryn Gwdyn Isaf, Chwilog | £3 |




DYMUNWN yn dda i Meinir Lloyd o'r Ffôr yn ei swydd newydd yng Nghylch Meithrin Ysgol Llangybi.

Dathlodd Bridget Handby, Bryn Selyf ei phen-blwydd yn 70 yn ddiweddar a llongyfarchwn hi a'i phriod Paul ar ddod yn nain a thaid unwaith eto. Ganwyd merch fach, eu hail blentyn, i Ross a Sophie.

Dymunwn wellhad buan i Hugh Bryn Tirion yn dilyn ei lawdriniaeth yn Ysbyty Broadgreen, Lerpwl, ac i Harri Gwyn, Llys Gwyn a gafodd glun newydd yn Ysbyty Gwynedd.

Croeso mawr i Michael a Dawn Boyle i Lwyn Helyg. Gobeithio y byddant yn hapus yma.

Aeth Joyce Griffiths, Llwyn Celyn i Gartref Plas Hafan, Nefyn. Dymunwn iddi wellhad buan.

Gwelwyd Ffion Williams, Ty'n Rhos ar raglen *Heno* S4C a llongyfarchwn hi ar ei llwyddiant yn sefydlu ei gwefan ei hun a gweithio oddi cartref yn canu ar gyfer ffilmiau a gemau.

Hoffai trigolion Llangybi ddiolch o galon i'w cymdogion sy'n casglu sbwriel oddi ar ochrau'r ffyrdd.




MAWRTH wedi cyrraedd ac wedi dod i mewn fel oen a ninnau'n dal dan glo o ryw fath. Y tebygrwydd ydi pan gawn ein datgloi y bydd pobl yn mynd yn wyllt wirion ac yn dechrau crwydro fel geifr Llandudno i lefydd na ddylsen nhw ddim. P'run bynnag, cofiwch droi'r cloc ymlaen at yr haf ar y 28 o'r mis, a pheidiwch â gadael i neb eich gwneud yn Ffŵl mis Ebrill. Hwyl am y tro.

Ein cofion at Mrs Ellen Jones, Bron Dwyfor sydd wedi colli ei chwaer-yng-nghyfraith yn ne Lloegr yn ddiweddar, sef gwraig Gareth ei brawd. Hefyd mae ein cydymdeimlad dwysaf â Mrs Glenda Ifans, Rhandir a'i theulu wedi marwolaeth ei mam Mrs E. Pritchard Roberts (Bet 77) yng Nghartref Bryn Awelon a hithau'n 92 mlwydd oed ac a oedd hefyd yn chwaer i Mr Edwin Jones, Garth – ein cofion ato yntau a'r teulu.

Rydym yn cofio at Mr John R. Owen, Meillionen sydd wedi treulio amser yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar, a'r un modd hefyd ein cofion at Llyr Parry, Abercin sydd wedi derbyn triniaeth yn ddiweddar yn Ysbyty Gobowen. Gwellhad buan i'r ddau.

Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau at Olwen Hughes, 28 Caerffynnon sydd wedi torri ei chlun ac wedi cael triniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Brysied adref.

Y taid a nain diweddaraf yn y pentref ydi Patrick a Melanie, Sŵn yr Afon. Ganwyd Megan, wyres fach iddynt ddechrau'r mis. Llongyfarchiadau i Mari eu merch a'i phartner Daniel.

Merch fach arall sydd wedi cyrraedd y pentref wedi hir ddisgwyl ydyw Esmi Gwenllian. Mae Esmi'n flwydd oed ac wedi setlo'n hynod o sydyn yn ei chartref newydd yn Cil y Coed. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i'r dyfodol i Esmi a'i mam fabwysiedig Llio Williams, heb anghofio nain hefyd, Meinir Prys Williams.




GANOL mis Mawrth roedd Mrs Eluned Owen, Pennant, yn dathlu pen-blwydd arbennig yn bedwar ugain. Gobeithio i chi gael diwrnod pleserus Eluned, er gwaetha'r cyfyngiadau sy'n bodoli.

Gan nad oedd modd i Fudiad Ffermwyr Ifanc Eryri gynnal eisteddfod draddodiadol eleni penderfynwyd arbrofi a chynnal eisteddfod rithiol. Diolch i'r Mudiad am drefnu'r cyfan ac i'r holl gystadleuwyr am ein diddanu. Rydym yn falch o lwyddiant dwy o ferched ifanc yr ardal. Daeth Catrin Lois, Cwmbran yn fuddugol yn y gystadleuaeth Llefaru dan bedair ar bymtheg, a Meinir Angharad Owen, Bryn Mawr enillodd gadair yr eisteddfod am ei cherdd ar y testun 'Cymuned'. Daeth Meinir yn ail yng nghystadleuaeth y goron hefyd, a hynny am ddarn o ryddiaith ar y testun 'Mwgwd'. Llongyfarchiadau mawr i'r ddwy ac i bawb arall fu'n cystadlu.

Mynwent Tai Duon: a ninnau ar drothwy Sul y Blodau gofynnwn yn garedig i'r cyhoedd sicrhau nad oes unrhyw fath o wastraff yn cael ei adael yn y fynwent. Os oes hen dorchau, blodau, poteli plastig neu fasys wedi malu, byddem yn ddiolchgar pe byddai pawb yn mynd â nhw adref i'w gwaredu. Diolch yn fawr.




BYDD Gwenno Griffith, Plas Newydd yn dechrau ar swydd fel athrawes Gymraeg yn ysgol Llangynwyd, Maesteg ym mis Medi. Llongyfarchiadau iddi a dymuniadau gorau. Yr wythnos nesaf bydd Gwenno'n ymuno â'r Adran Gymraeg yn Ysgol Glantaf Caerdydd i gwblhau ei chwrs ymarfer dysgu.




CROESO i Carol Jones a'r plant – Osian, 12 oed ac Alys, blwydd oed – i fyw i Gorffwysfa o Langybi. Un o genod Trefor yw Carol yn wreiddiol a chogyddes yn ysgol y pentref hwnnw wrth ei gwaith. Gobeithio y bydd hi a'r plantos yn hapus yn ein plith.

Mudo fu hanes Peredur, Llecyn hefyd, a dymunwn yn dda iddo

yn ei gartref newydd ym Mhwllheli. Llongyfarchiadau i Peredur hefyd ar raen ei sgwrs am orsaf drydan Dinorwig ar Radio Cymru. Bu canmol mawr ar y cynnwys a'r traddodi.

Chwith yw cofnodi marwolaeth Mrs Nancy Griffith, 1 Tregarn yn Ysbyty Bryn Beryl yn 90 oed. Roedd 'Mrs G' fel y'i gelwid yn annwyl, yn wraig dawel, fonheddig ac yn gefnogol i bob mudiad yn y pentref gan gynnwys y capel, Sefydliad y Merched a'r tîm dartiau, Y Gymdeithas Lenyddol, y Gymdeithas Adloniant a'r Clwb Gwau. Cydymdeimlwn â'r plant a'u teuluoedd yn eu profedigaeth: Rhiannon yng Ngharndolbenmaen, Elinor ym Mhwllheli, Goronwy yn Amwythig, John Gwynfor yng Nghaint a Myfanwy yng Nghaernarfon.

Gan nad oedd clo'r feirws yn caniatáu i Wenna ac Ioan Hughes, Tyddyn Uchaf gynnal eu cinio Nadolig i wahoddedigion er budd elusen yn 2020, derbyniodd Wenna, sy'n hoff iawn o goffi, yr her i yfed dim byd ond dŵr trwy gydol mis Ionawr. Cafodd gyfle i sôn am y bwriad ar bregeth Zoom yr ofalaeth, a beth bynnag fyddai'r swm a gasglai cyn diwedd Chwefror fe'i dyblid gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Trwy hynny derbyniwyd swm clodwiw er budd y gronfa Water Aid i wledydd tlawd. Da iawn, Wenna.

Cafwyd oedfa lwyddiannus iawn ar y teledu o gapel gwag Pencae ar fore Sul 7 Mawrth. Traddodwyd pregeth wych ac amserol iawn yn seiliedig ar Fasnach Deg a hanes Dafydd, Nabal ac Abigail o Lyfr Cyntaf Samuel gan y gweinidog, y Parch. Aled Davies. Cynorthwywyd ef gyda'r darlleniadau gan ei briod Delyth a daeth y canu o recordiad yng nghapel Siloh, Chwilog dan arweiniad Pat Jones.




LLONGYFARCHIADAU calonnog i Mrs Mair Thomas, Bryn ar ddathlu ei phen-blwydd yn 90 oed ar 15 Chwefror. Da oedd clywed i chi gael dathliad rhithiol yng nghwmni'r teulu. Dymunwn i chi lawer dedwydd dro unwaith y gwelir llacio hualau'r cyfnod clo.




POB dymuniad da i Morris Evans, Glan Wern ar ei ben-blwydd yn 90 ar 16 Chwefror. Hefyd, brysiwch wella ar ôl derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.




YMDDIHEURIADAU i gychwyn am y gwall teipio ar fy rhan ynglŷn ag enw gwreiddiol Tŷ Ni y cyfeiriwyd ato y mis diwethaf. Bodlas wrth gwrs oedd yr enw i fod ac nid Bodeilias! Diolch i Mona, Gorffwysfa gynt am dynnu fy sylw at y gwall.

Dymuniadau gorau am adferiad iechyd buan i Kevin, Hendre Bach sydd yn Ysbyty Gwynedd ar hyn o bryd.

Bu dau anifail ar goll yn yr ardal yn ddiweddar a bu chwilio mawr amdanynt. Dychwelodd Kuro, cath Cian Hendre Bach adra wedi bod ar goll ers dyddiau lawer ac yn wir ar yr un diwrnod, dychwelodd Ben, ci Crymllwyn wedi iddo yntau ddiflannu am ddiwrnod go dda. Siŵr fod y ddau wedi sylweddoli'n bod ni dan gyfyngiadau teithio ac wedi'i gwadnu hi am adra! Mae'n atgoffa rhywun hefyd o'r llyfr *The Incredible Story* gan Sheila Burnford a addaswyd yn ffilm gan Disney am y ddau gi a'r gath a fu ar daith hirfaith i gyrraedd yn ôl adref.

Bellach mae Steven a Sharon Potter, Tyrpeg wedi mudo i ardal yr Amwythig. Dymuniadau gorau iddynt yn eu cartref newydd. Croeso i Louise, sydd â chysylltiadau ag Aberdaron, i Tyrpeg.

Mae rhai yn Rhosfawr 'ma wedi bod dramor yn cerdded. 'Does ganddyn nhw ddim hawl, a ninnau dan gyfyngiadau teithio!' dwi'n eich clywed chi'n deud yn flin, ond peidiwch â phoeni teithiau rhithiol ydyn nhw. Cerddodd tair y Camino de Santiago yn Sbaen, pellter o 480 milltir, a chyn hyn roedd dwy o'r tair wedi cerdded arfordir Cymru sydd yn 870 milltir. Ar hyn o bryd mae un arall wrthi'n cerdded yr arfordir ar ôl bod yn ymweld â'r Grand Canyon yn Arizona. Bob diwrnod cewch gerdded faint fynnoch a chofnodi'r pellter ar ddiwedd y dydd i wefan arbennig. Mae'n ddigon difyr cofiwch, ac o bryd i'w gilydd cewch gerdyn post trwy gyfrwng eich ebost gyda manylion am yr ardal rydych wedi ei chyrraedd. Cewch fedal go iawn ar ddiwedd eich taith hefyd. Yn ogystal, mewn cydweithrediad â phrosiect Eden bydd darparwyr y teithiau yn plannu coeden go iawn ar eich rhan rywle yn y wlad y byddwch ynddi. Mantais fawr y teithiau rhithiol hyn yw eu bod wedi gorfodi rhywun i gerdded bob diwrnod ac i ddod i adnabod ei fro yn well a chanfod llwybrau difyr. Os hoffech fwy o wybodaeth am y teithiau ewch i wefan End to End neu Conqueror Challenges.

O sôn am gerdded, tybed oes gan rywun lun o'r llwybr o gapel Tyddynshon i'r lôn fawr trwy dir Llwyn Ffynnon? Roedd hwn yn llwybr eithaf arbennig gan ei fod yn uwch na lefel y cae, ond bellach mae wedi ei chwalu'n llwyr ac nid oes bosib cerdded ar ei hyd wedi glaw oherwydd bod y tir yn un fochfa o fwd. Byddai derbyn llun yn fantais i berswadio Cyngor Gwynedd i bwyso ar berchennog y tir i adfer y llwybr i'w ffurf wreiddiol.

Cofiwch gysylltu os oes gennych bwt o stori: rhian.jones498@btinternet.com neu ffonio (01766) 810196.




CYDYMDEIMLWN ag Elis Roberts a'r teulu, Fron Olau Isaf yn ei brofedigaeth o golli ei nain, Elizabeth Pritchard Roberts.




OHERWYDD ansicrwydd y sefyllfa gyda phandemig y Cofid-19 penderfynodd pwyllgor Sioe Flodau y Ffôr beidio cynnal y sioe yng Nghanolfan Ysgol Bro Plenydd ddydd Llun Gŵyl y Banc mis Awst eleni. Dyma'r ail flwyddyn yn olynol iddynt orfod gohirio. Gobeithiant yn wir y bydd y sefyllfa wedi gwella a newid erbyn 2022, ac y gellir trefnu Sioe werth chweil unwaith eto ar ein cyfer.

Llongyfarchiadau i Marc ac Alaw, Pantycelyn ar enedigaeth merch, Elsi Ioi, chwaer fach i Nansi.

Bu dathlu mawr yn Nhŷ Isaf yn ddiweddar wrth i Irene Jones gyrraedd carreg filltir arbennig iawn. Wnawn ni ddim datgelu'r oed! Llongyfarchiadau Irene.

Pob dymuniad da hefyd i Siwan Llwyd, Sycharth a ddathlodd ei phen-blwydd yn 21 oed.

Anfonwn ein cofion at y rhai o'r pentref sy'n cwyno, boed gartref, mewn ysbyty neu mewn cartref gofal. Cymerwch ofal a chadwch yn saff.

Cofiwch anfon unrhyw eitem o newyddion i Llain Las os am ei gynnwys yn Y Ffynnon.

• • • • • • • • • • • • • •




Dylid anfon diolchiadau y dymunir eu cyhoeddi yn Y Ffynnon ynghyd â thâl o £2 at Margaret E. Jones, Bryn Siloh, Chwilog. Cydnabyddir pob cyfraniad sydd dros £2 yn y golofn 'Rhoddion'. Diolch yn fawr i bawb am bob cydweithrediad.

DYMUNA Lis, Bryngwdyn Isaf, Chwilog ddiolch o galon i bawb a gyfrannodd at Wasanaeth Gwylwyr y Glannau Porthdinllaen trwy roi arian am afalau yn y giât. Codwyd £200 tuag at yr achos. Diolch yn fawr.


**HENRY JONES (CRICCIETH) CYF**
YMGYMERWYR ANGLADDAU
Capel Gorffwys • Rhes Capel • Cricieth
**Ffôn: (01766) 522 854 (01766) 523 463**
GWASANAETH GOFALUS A PHERSONOL
24 AWR

**DEWI JONES**
**TRYDANWR**
Domestig a Masnachol
Gosod, atgyweirio ac ychwanegiadau trydanol
Gwaith profi ac archwilio
Pencaenewydd, Pwllheli
**(07528) 178 464 delfryn@btinternet.com**

MADOG
DIOGELWCH TÂN · FIRE SAFETY
Gwerthu a Gwasanaethu Diffoddyddion Tân
Hyfforddiant Diogelwch Tân
Asesiadau Risg Tân Cyffredinol
Asesiadau Risg Tân Bythynnod Gwyliau
Diogelwch Tân Ffermydd
Profion Trydanol PAT
**Congl Meinciau, Botwnnog LL53 8RA**
**(01758) 770 010**
**info@madogfiresafety.co.uk**

**SHAUN FITZPATRICK**
Gwasanaeth Boileri Olew
Gosod Tanciau Olew
Glanhau Gwres Canolog
Swfitzpatrick68@gmail.com
(07881) 930 230
**Technegydd Cofrestredig**
OFTEC

**Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd**
Gostyngiad o 30% i drigolion lleol sy'n dymuno mynychu'n cyrsiau yn ddi-breswyl
Am ragor o wybodaeth,ewch i: **www.tynewydd.cymru**
neu cysylltwch am sgwrs:
Tŷ Newydd, Llanystumdwy, Cricieth, Gwynedd LL52 0LW
**tynewydd@llenyddiaethcymru.org / (01766) 522 811**

*Llên Llŷn* *Llyfrwerthwyr 5-6 Rhes Meitr, Pwllheli*
*01758 612907* *llenllyn@btconnect.com*

Cymru ar Stampiau'r Byd (Twm Elias, Dafydd Guto) £6.95
Llwybrau Ddoe – atgofion drwy ganeuon (Tudur Morgan) llyfr + CD £8.00
Rhwng Dau Olau (Ifor ap Glyn) £7.90
Llyfr Du Cymru Fydd (Llywelyn ap Gwilym) £4.99
Paned o De yn Georgia (Wendy Jones) £9.95
Melltith yn y Mynydd – Chwedlau'r Copa Coch (Elidir Jones) £7.99
Ha Ha Cnec! Jôcs twp a lluniau twpach (Huw Aaron) £1.00
Bolgi a'r Ŵyn Bach – cyfres Cyw (Anni Llŷn) £3.95




# Cofio'r Cymro Dai Davies (1948 – 2021)



***Dyma sydd wedi ei gofnodi ar gefn y llun gan fy nain – 'Tynnwyd y llun ar 13 Mehefin 1978 yn Nhŷ Penfro, Bryncir. Fi (Jane Jones) gyda Dai o'r Cwm, gôl-geidwad tîm pêl-droed Cenedlaethol Cymru a thîm Wrecsam.'***

AR ÔL CYFNOD yn chwarae i Abertawe yn y brif adran fe symudodd Dai Davies i glwb Wrecsam yn 1977. Dyna pryd y gwelodd fy nain gyfweliad yn Gymraeg efo Dai ar raglen newyddion ar y teledu pan ddywedodd o ei fod yn symud i fyw i'r Wyddgrug ac yn awyddus i'w blant gael addysg Gymraeg.

Drannoeth gweld y cyfweliad fe ysgrifennodd fy nain at Dai yn ei groesawu i'r Wyddgrug, gan ddweud wrtho ei bod wrth ei bodd ei fod yn dymuno i'w blant gael addysg Gymraeg. Roedd clywed hynny gan berson o'i statws o wrth fodd ei chalon. Roedd Dai yn ei thyb hi wedi gwneud datganiad clir o blaid Y Gymraeg.

Fel y gwelwch yn sylwadau Nic Parry, a baratowyd ganddo ar gyfer Y Ffynnon, roedd Dai a'i deulu yn hoff iawn o fynd am Ben Llŷn – ac Aberdaron yn arbennig – ar eu gwyliau. Un diwrnod, pwy landiodd yn nhŷ fy nain ond y dyn ei hun, ei wraig a'i blant. Ac nid hwn fyddai'r unig dro iddyn nhw alw. Bu'n ddigwyddiad cyson yn ystod y pedair blynedd y bu Dai yn chwarae i Wrecsam.

Mae'n debyg gen i bod y croeso cenedlaetholgar a gyfleodd fy nain i Dai wedi creu argraff arno ac i mi roedd ei ymweliadau â'i chartref ym Mryncir yn cyfleu ei ddiolch am ddiffuantrwydd balchder pobl Cymru yn ei Gymreictod greddfol yntau.

Fe welwch y balchder a'r llawenydd yna yn wyneb fy nain yn y llun.

***Dewi R. Jones***

Mae angen heddwch a thawelwch ar y rheiny o allu prin sy'n llwyddo i ennill 52 o gapiau dros eu gwlad, sy'n cael eu prynu gan glwb Everton a hwythau'n Bencampwyr Lloegr, sy'n cyrraedd safle uchaf prif adran Lloegr efo Abertawe ac sy'n chwarae i Wrecsam yn y cyfnod mwyaf llwyddiannus yn eu hanes, a hynny yn ei gyfnod hapusaf o fel chwaraewr proffesiynol. Câi Dai yr heddwch hwnnw mewn dau le yn fwy na dim, ei gapel a'i annwyl Ben Llŷn.

Erbyn diwedd ei oes ni olygai'r capel na chrefydd ddim iddo. Erbyn hynny roedd yn ŵr ysbrydol, yn byw bywyd mor bell ag oedd bosib oddi wrth brysurdeb materol ei gyn-broffesiwn. Tra yn ei chanol hi, fodd bynnag – efallai wedi noson o beint neu ddau (yfodd o'r un dropyn am ddegawdau wedyn) a hyd yn oed ambell i smôc o Hamlet – câi ei lonydd yng nghefn Capel Bethesda, Yr Wyddgrug. Soniai'n aml wrtha i am 'yr unig dawelwch oedd i'w gael'.

Yn yr hafau y deuai'r ddihangfa arall a hynny efo'i deulu ym Mhen Llŷn. Yn Gymro balch – enwodd un mab yn Gareth ar ôl Gareth Edwards a merch, Rhian, ar ôl arwr arall iddo, Ryan Davies oedd o'r un Cwm (Dyffryn Aman) â fo – teimlai ryddid ynghanol 'tonnau gwyllt y môr'.

Mae Cymru'n cofio'r golwr cyntaf i ennill 50 o gapiau dros ei wlad, deheuwr rhonc o gymdeithas lofaol ddaeth â pharch a bri i enw'i wlad ar draws Ewrop. Eto i gyd, chwaraeodd y Gogledd ei ran. Ymgartrefodd mor hapus yn yr Wyddgrug ac wedyn yn Llangollen. Dyna pam mae'r wlad gyfan yn hiraethu amdano.

***Nic Parry***